CANLLAW ARFER DA AR DDEFNYDDIO'R GOFRESTR O DIRWEDDAU O DDIDDORDEB HANESYDDOL YNG NGHYMRU YN Y BROSES GYNLLUNIO A DATBLYGU



Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Cadw

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CANLLAW ARFER DA AR DDEFNYDDIO'R GOFRESTR O DIRWEDDAU O DDIDDORDEB HANESYDDOL YNG NGHYMRU YN Y BROSES GYNLLUNIO A DATBLYGU

Mae'r Canllaw Arfer Da hwn yn ymwneud â'r Gofrestr anstatudol o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Mae prif noddwyr y Gofrestr, Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, wedi'i baratoi gyda chymorth y pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru. Mae'r Canllaw yn ddogfen anstatudol ac ymgynghorol yn unig. Bwriedir iddo gynorthwyo'r awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu faint o bwys i roi ar y wybodaeth yn y Gofrestr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bwriedir hefyd iddo gynorthwyo pobl eraill sydd yn ymwneud â'r broses gynllunio a datblygu yng Nghymru, yn enwedig datblygwyr sy'n paratoi datganiadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol, fel y gallant ddwyn ymlaen cynlluniau a chynigion sy'n debygol o gael cyn lleied ag sy'n bosibl o effaith niweidiol ar ardaloedd o dirweddau hanesyddol ar y Gofrestr.

Mae'r Canllaw mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf, 'Cynllunio ar gyfer Tirweddau Hanesyddol', yn disgrifio cefndir y Gofrestr, y rhaglen ddilynol o Nodweddu Tirweddau Hanesyddol yn yr ardaloedd a ddynodir arni, yr egwyddorion cyffredinol sy'n sail i'r dulliau o adnabod a gwarchod tirweddau hanesyddol, a'r defnydd awgrymedig o'r Gofrestr o fewn y broses cynllunio a gweithdrefnau asesu eraill nad ydynt yn cael eu hyrwyddo trwy'r Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref. Mae ail ran y canllaw yn cynnwys Atodiad Technegol sy'n gosod proses ar gyfer asesu gam wrth gam, arwyddocâd effeithiau datblygu ar ardaloedd o dirweddau hanesyddol ar y Gofrestr. Argymhellir bod asesiadau'n cael eu cyflawni fel mater o drefn yn yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd uchod ac yn unol â'r defnydd awgrymedig o'r Gofrestr a ddisgrifiwyd yn y Canllaw.

CYNNWYS

ARDALOEDD O DIRWEDD

Allwedd i'r Mapiau 5

Map yn dangos yr Ardaloedd o Dirwedd ac Awdurdodau Lleol 6

Map yn dangos yr Ardaloedd o Dirwedd, Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Arfordiroedd Treftadaeth 7

CYNLLUNIO AR GYFER TIRWEDDAU HANESYDDOL

1.0 Cefndir i'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru 9

2.0 Defnydd awgrymedig y Gofrestr o fewn y brosesau cynllunio a datblygu 9

3.0 Rhaglen Nodweddu Tirweddau Hanesyddol 11

4.0 Sut y caiff Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol eu nodi 11

5.0 Cael gwybodaeth am Nodweddu Tirweddau Hanesyddol ac Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol 12

6.0 Egwyddorion allweddol sy'n sail i ddynodi tirweddau hanesyddol 12

7.0 Arweiniad ar bennu ymylon tirweddau ac ar statws elfennau neu nodweddion diweddar yn yr ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr 13

ATODIAD TECHNEGOL

Y broses ASIDOHL 15

ATODIAD

Rhestr o sefydliadau y gallwch gael rhagor o wybodaeth neu gyngor ganddynt 31

ARDALOEDD O DIRWEDD

Yn sgîl y penderfyniad yn 1980 y dylai Priffordd yr A55 groesi Afon Conwy drwy gyfrwng twnnel (yma'n cael ei adeiladu) yn hytrach na thros bont a fyddai wedi'i lleoli'n agos iawn at y castell byd enwog o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, diogelwyd lleoliad ysblennydd y castell a chydlyniad hanfodol tirwedd hanesyddol Creuddyn a Chonwy.

1. Vale of Clwyd HLW (C) 1
2. Holywell Common and Halkyn Mountain HLW (C) 2
3. Black Mountain and Mynydd Myddfai HLW (D) 1
4. Upland Ceredigion HLW (D) 2
5. Milford Haven Waterway HLW (D) 3
6. St Davids Peninsula and Ramsey Island HLW (D) 4
7. Tywi Valley HLW (D) 5
8. Skomer Island HLW (D) 6
9. Preseli HLW (D) 7
10. Dolaucothi HLW (D) 8
11. Taf and Tywi Estuary HLW (D) 9
12. Merthyr Mawr, Kenfig & Margam Burrows HLW (MGl) 1
13. Merthyr Tydfil HLW (MGl) 2
14. Llancarfan, Vale of Glamorgan HLW (SGl) 1
15. Gower HLW (WGl) 1
16. Blaenavon HLW (Gt) 1
17. Gwent Levels HLW (Gt) 2
18. Lower Wye Valley HLW (Gt) 3
19. Amlwch and Parys Mountain HLW (Gw) 1
20. Ardudwy HLW (Gw) 2
21. Blaenau Ffestiniog HLW (Gw) 3
22. Lower Conwy Valley HLW (Gw) 4
23. Creuddyn and Conwy HLW (Gw) 5
24. Dinorwig HLW (Gw) 6
25. Aberglaslyn HLW (Gw) 7
26. Lleyn and Bardsey Island HLW (Gw) 8
27. Nantlle Valley HLW (Gw) 9
28. Ogwen Valley HLW (Gw) 10
29. Trawsfynydd Basin and Cwm Prysor HLW (Gw) 11
30. North Arllechwedd HLW (Gw) 12
31. Vale of Dolgellau HLW (Gw) 13
32. Mawddach HLW (Gw) 14
33. Penmon HLW (Gw) 15
34. Tanat Valley HLW (P/C) 1
35. Vale of Montgomery HLW (P) 2
36. Middle Wye Valley HLW (P) 3
37. Berwyn HLW (C) 3
38. Lower Elwy Valley HLW (C) 4
39. Denbigh Moors HLW (C) 5
40. Vale of Llangollen and Eglwyseg HLW (C) 6
41. Maelor HLW (C) 7
42. Drefach and Felindre HLW (D) 10
43. Pen Caer: Garn Fawr and Strumble Head HLW (D) 11
44. Stackpole Warren HLW (D) 12
45. Manorbier HLW (D) 13
46. Lower Teifi Valley HLW (D) 14
47. Newport and Carningli HLW (D) 15
48. East Fforest Fawr and Mynydd-y-glôg HLW (MGl) 3
49. Gelli-gaer Common HLW (MGl) 4
50. The Rhondda HLW (MGl) 5
51. Margam Mountain HLW (WGl/MGl) 2
52. Clydach Gorge HLW (Gt) 4
53. Bala and Bala Lakesides HLW (Gw) 16
54. Dysynni Valley HLW (Gw) 17
55. Elan Valley HLW (P) 4
56. Caersws Basin HLW (P) 5
57. Clywedog Valley HLW (P) 6
58. Middle Usk Valley: Brecon and Llangorse HLW (P) 7

1. Dyffryn Clwyd HLW (C) 1
2. Comin Treffynnon a Mynydd Helygain HLW (C) 2
3. Y Mynydd Du a Mynydd Myddfai HLW (D) 1
4. Ucheldir Ceredigion HLW (D) 2
5. Moryd Aberdaugleddau HLW (D) 3
6. Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi HLW (D) 4
7. Dyffryn Tywi HLW (D) 5
8. Ynys Selyf HLW (D) 6
9. Preseli HLW (D) 7
10. Dolaucothi HLW (D) 8
11. Aber Afonydd Taf a Thywi HLW (D) 9
12. Twyni Merthyr Mawr, Cynffig a Margam HLW (MGl) 1
13. Merthyr Tudful HLW (MGl) 2
14. Llancarfan, Bro Morgannwg HLW (SGl) 1
15. Gŵyr HLW (WGl) 1
16. Blaenafon HLW (Gt) 1
17. Gwastadeddau Gwent HLW (Gt) 2
18. Pen Isaf Dyffryn Gwy HLW (Gt) 3
19. Amlwch a Mynydd Parys HLW (Gw) 1
20. Ardudwy HLW (Gw) 2
21. Blaenau Ffestiniog HLW (Gw) 3
22. Pen Isaf Dyffryn Conwy HLW (Gw) 4
23. Creuddyn a Chonwy HLW (Gw) 5
24. Dinorwig HLW (Gw) 6
25. Aberglaslyn HLW (Gw) 7
26. Llŷn ac Ynys Enlli HLW (Gw) 8
27. Dyffryn Nantlle HLW (Gw) 91
28. Dyffryn Ogwen HLW (Gw) 10
29. Bro Trawsfynydd a Chwm Prysor HLW (Gw) 11
30. Gogledd Arllechwedd HLW (Gw) 12
31. Bro Dolgellau HLW (Gw) 13
32. Mawddach HLW (Gw) 14
33. Penmon HLW (Gw) 15
34. Dyffryn Tanad HLW (P/C) 1
35. Bro Tefaldwyn HLW (P) 2
36. Canol Dyffryn Gwy HLW (P) 3
37. Y Berwyn HLW (C) 3
38. Pen Isaf Dyffryn Elwy HLW (C) 4
39. Mynydd Hiraethog HLW (C) 5
40. Dyffryn Llangollen ac Eglwyseg HLW (C) 6
41. Maelor Saesneg HLW (C) 7
42. Dre-fach a Felindre HLW (D) 10
43. Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbwl HLW (D) 11
44. Cwningar Ystagbwll HLW (D) 12
45. Maenorbŷr HLW (D) 13
46. Pen Isaf Dyffryn Teifi HLW (D) 14
47. Trefdraeth a Charningli HLW (D) 15
48. Dwyrain Fforest Fawr a Mynydd-y-glôg HLW (MGl) 3
49. Gwaun Gelli-gaer HLW (MGl) 4
50. Y Rhondda HLW (MGl) 5
51. Mynydd Margam HLW (WGl/MGl) 2
52. Cwm Clydach HLW (Gt) 4
53. Y Bala a Glannau Tegid HLW (Gw) 16
54. Dyffryn Dysynni HLW (Gw) 17
55. Cwm Elan HLW (P) 4
56. Bro Caersŵs HLW (P) 5
57. Dyffryn Clywedog HLW (P) 6
58. Canol Dyffryn Wysg: Aberhonddu a Llan-gors HLW (P) 7

YR ARDALOEDD O DIRWEDD AC AWDURDODAU LLEOL

YR ARDALOEDD O DIRWEDD, PARCIAU CENEDLAETHOL, ARDALOEDD O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL AC ARFORDIROEDD TREFTADAETH



CYNLLUNIO AR GYFER TIRWEDDAU HANESYDDOL

Llun o'r awyr o forlynnoedd a chorsleoedd Gwarchodfa Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent a grëwyd yn lle'r cynefinoedd a gollwyd pan adeiladwyd Morglawdd Bae Caerdydd. Mae'r warchodfa wedi'i hintegreiddio'n llwyddiannus ym mhatrwm tirwedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent.

1.0 Cefndir i'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru

1.1 Gellid dweud bod tirwedd Cymru gyfan yn hanesyddol, a bod gweithgarwch dynol wedi bod wrth wraidd ei greadigaeth yn aml. Mae natur ei thir, yr ofalaeth a fu drosto gan genedlaethau o dirfeddianwyr a ffermwyr dros y canrifoedd, ynghyd ag ychydig iawn yn unig o amaethu a threfoli dwys, wedi creu amodau delfrydol sydd wedi caniatáu i lawer o gymeriad hanesyddol tirwedd Cymru oroesi. Fodd bynnag, ers dechrau'r 20fed ganrif, mae cyfradd a chyflymder y newid wedi dwysáu, a bellach, a ninnau ar ddechrau'r 21ain ganrif, mae cymeriad hanesyddol y tirwedd o dan bwysau cynyddol gan amrywiaeth o newidiadau wrth i nodweddion hŷn gael eu hadnewyddu neu gael eu cyfnewid am rai newydd, neu pan fod yn rhaid cyflwyno nodweddion newydd, sydd yn aml gyda cymeriad gwahanol iawn, i ateb gofynion cyfoes.

1.2 Gyda'r cefndir hwn mewn golwg felly, ac er mwyn bod yn fwy gwybodus ynglŷn â sut i gymhathu newidiadau angenrheidiol mewn modd sy'n gydnaws â chymeriad hanesyddol y tirwedd, mae Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a'r Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS UK) wedi penderfynu gweithio ar y cyd i gynhyrchu Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Bydd hyn yn fodd i adnabod, ac i ddarparu gwybodaeth am y tirweddau hanesyddol pwysicaf a'r rhai sydd wedi goroesi orau yng Nghymru. Mae'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion yng Nghymru, y pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru ac awdurdodau lleol Cymru hefyd wedi cydweithio ar y prosiect.

1.3 Mae'r Gofrestr wedi'i chyhoeddi mewn dwy ran, sy'n cynnwys tri deg chwech o ardaloedd o dirwedd hanesyddol 'eithriadol' a dwy ar hugain o ardaloedd o dirwedd hanesyddol 'arbennig'. Y Gofrestr yw Rhan 2 o'r ymarferiad ehangach i roi at ei gilydd Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. At ddibenion y Canllaw hwn, felly, mae'r term 'tirwedd hanesyddol' yn cyfeirio at ardal a gynhwyswyd ar y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru* (ac a gyhoeddwyd fel Rhan 2.1 gan Cadw, ym 1998, ISBN 1 85760 007 X), neu ar y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru* (a gyhoeddwyd fel Rhan 2.2, gan Cadw, yn 2001, ISBN 1 85760 187 4). Nid yw'r Canllaw yn ymdrin â Rhan 1 o'r Gofrestr sy'n ymwneud â pharciau a gerddi hanesyddol.

1.4 Drwy ddynodi detholiad o ardaloedd ar y Gofrestr yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol yng nghyd-destun Cymru, y gobaith yw y bydd mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i dirweddau hanesyddol yn gyffredinol, wrth gynllunio, rheoli, gwarchod, ehangu a dadansoddi tirwedd, ac wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer mynediad a hamdden. Wrth godi ymwybyddiaeth am arwyddocâd hanesyddol a phwysigrwydd amgylchedd Cymru yn gyffredinol, dylai'r Gofrestr hefyd annog pawb perthnasol i roi mwy o sylw i agweddau tirweddol hanesyddol ochr yn ochr â'r materion cadwraethol mwy traddodiadol a hirsefydlog.

1.5 Ar yr un pryd, mae'r Gofrestr yn cydnabod bod tirweddau yn systemau deinamig a byw sydd wedi'u sefydlu i ddiwallu anghenion cyfredol, economaidd yn bennaf. Yr hyn sy'n bodoli heddiw gan mwyaf yw tirwedd a grëwyd gan ddyn, drwy ymdrechion pobl er pan ddechreuwyd amaethu yn y wlad hon. Bydd tirweddau, felly yn parhau i newid, a bydd angen iddynt newid, felly y bwriad yw peidio â'u ffosileiddio, na'u hatal rhag cael eu haddasu, ond yn hytrach eu rheoli mewn ffyrdd a fydd yn galluogi'r elfennau a'r nodweddion hanesyddol allweddol o'r gorffennol i gael eu cadw wrth barhau i ddiwallu anghenion cyfoes.

1.6 Mae'r holl ardaloedd o dirwedd a ddynodir ar y Gofrestr yn rhai sydd o bwysigrwydd yng nghyd-destun Cymru. Mae'r gwahaniaeth rhwng y tirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol a nodwyd yn Rhan 2.1, a'r tirweddau o ddiddordeb hanesyddol arbennig a nodwyd yn Rhan 2.2 felly, yn adlewyrchu gwahanol raddau o hynodrwydd hanesyddol yn hytrach na gwahaniaeth o ran safon. Sefydlwyd y dull gwahaniaethu drwy gonsensws ymhlith arbenigwyr gan ddilyn y trothwyon sgorio a osodwyd ar gyfer dewis pa ardaloedd i'w cynnwys ar y Gofrestr. Cadarnhawyd y trothwyon sgorio gan asesiadau maes ac fe'u disgrifir yn fanwl yn y cyflwyniad i'r Gofrestr. Yn fras, bwriad y gwahaniaeth yw adlewyrchu'r ffaith bod y tirweddau o ddiddordeb hanesyddol arbennig fel arfer yn llai eu maint ac mae llai o feini prawf ar gyfer eu dethol, o'u cymharu â'r tirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y gwahaniaeth yn golygu bod y cyntaf yn llai o werth na'r olaf, a chyn belled ag y bo'r cyngor ar ddefnydd y Gofrestr dan sylw, dylai'r ddau gategori gael eu trin yn yr un modd.

1.7 Ceir mwy o wybodaeth am y cefndir tu ôl i lunio'r Gofrestr, ei methodoleg, a'i rôl yn y cyflwyniad i Ran 2.1, gydag ychwaneg o wybodaeth ategol, wedi'i ddiweddaru, yn y cyflwyniad i Ran 2.2.

1.8 Mae Cadw hefyd wedi cyhoeddi canllaw mwy cyffredinol i dirweddau hanesyddol a fwriedir i godi ymwybyddiaeth o'u bodolaeth a'u pwysigrwydd ymysg cynulleidfa ehangach (*Gofalu am Dirweddau Hanesyddol*, Caerdydd, 2003).

2.0 Defnydd awgrymedig y Gofrestr o fewn y broses cynllunio a datblygu

2.1 Mae'r Canllaw hwn a'r Atodiad Technegol dilynol wedi'u hanelu'n bennaf at asesu prosiectau unigol a'r broses rheoli datblygu. Nid ydynt yn cyfeirio'n benodol at asesu cynlluniau

datblygu nac at asesu o safbwynt cynlluniau a rhaglenni amgylcheddol strategaethol, er enghraifft, Cynlluniau Datblygu Unedol, Cynlluniau Cludiant, Cynlluniau Priffordd ac yn y blaen; er hynny, dylai cynlluniau a rhaglenni o'r fath gydnabod a chyfeirio at yr egwyddorion sydd ynghlwm a'r angen i ystyried materion sy'n gysylltiedig â thirweddau hanesyddol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Canllaw a'r Atodiad Technegol yn ymdrin ag effaith dymor hwy, gynyddol datblygiad neu newid mewn tirweddau hanesyddol. Byddai hyn yn gofyn am broses asesu strategol, tymor hir, gan alluogi pwysau, straen a risgiau i gael eu nodi a galluogi dangosyddion a 'therfynau derbynioldeb' a 'statws mwyaf ffafriol' yr ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr i gael eu sefydlu yn y pen draw. Mae'r cyrff noddi yn gobeithio y caiff y Canllaw hwn a'r Atodiad Technegol eu defnyddio fel teclyn i ddechrau ac ategu'r broses honno.

2.2 Rhoddir cyngor ar adeiladau cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth yn y broses gynllunio yng Nghylchlythyron 61/96 y Swyddfa Gymreig, *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth a 1/98 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru*; ac yn *Polisi Cynllunio Cymru*, Mawrth 2002, Llywodraeth Cynulliad Cymru, paragraffau 6.5.7 i 6.5.13 a pharagraffau 6.5.14 i 6.5.21. Mae adeiladau cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth yn aml yn elfennau cyfunol, neu weithiau, yn nodweddion allweddol mewn tirweddau hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor yn y Canllaw hwn yn newid nac yn effeithio ar y darpariaethau yn y dogfennau hyn a ddylai barhau i fod yn berthnasol i adeiladau cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth o fewn ardaloedd o dirweddau hanesyddol ar y Gofrestr.

2.3 Rhoddir cyngor ar rôl Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y broses gynllunio yng Nghylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth*, paragraffau 13, 14 a 15; ac yn *Polisi Cynllunio Cymru*, Mawrth 2002, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Paragraff 6.5.22. Mae mwyafrif o Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru o fewn tirweddau hanesyddol, ond nid yw'r cyngor yn y Canllaw hwn yn newid nac yn effeithio ar y ddarpariaeth yn y dogfennau hyn a ddylai barhau i fod yn berthnasol i Safleoedd Treftadaeth y Byd o fewn ardaloedd o dirweddau hanesyddol ar y Gofrestr.

2.4 Rhoddir cyngor ar rôl archeoleg yn y broses gynllunio yng Nghylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig, *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg*, ac yn *Polisi Cynllunio Cymru*, Mawrth 2002, Llywodraeth Cynulliad Cymru, paragraffau 6.5.1 i 6.5.6. Mae safleoedd archeoleg yn aml yn elfennau cyfunol, neu weithiau yn nodweddion allweddol, mewn tirweddau hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor yn y Canllaw hwn yn newid nac yn effeithio ar y darpariaethau yn y dogfennau hyn a ddylai barhau i fod yn gymwys i safleoedd archeolegol o fewn ardaloedd o dirweddau hanesyddol ar y Gofrestr.

2.5 Mae gwybodaeth am sut y gellir defnyddio'r Gofrestr wedi'i gosod, mewn manylder, yn y cyflwyniad iddi, gydag ychwaneg o wybodaeth ategol, wedi'i diweddaru, yn y cyflwyniad i Ran 2.2. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r Gofrestr yn gorfodi rheolaeth statudol ac nid yw'r ardaloedd arni wedi'u 'dynodi'. Mae'r canllaw diweddaraf a roddwyd i'r awdurdodau cynllunio ar ddefnydd y Gofrestr wedi'i osod yn *Polisi Cynllunio Cymru*, Mawrth 2002, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, paragraff 6.5.23 sy'n nodi:

'Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol hefyd ystyried gwybodaeth am y tirweddau yn ail ran y Gofrestr wrth baratoi Cynlluniau Datblygu, ac wrth ystyried goblygiadau'r datblygiadau sydd ar y fath raddfa fel y caent fwy nag effaith leol yn unig ar ardal ar y Gofrestr.'

2.6 Dylai datblygiadau gael eu hystyried fesul un, ond yn gyffredinol, gellir eu diffinio fel a ganlyn, ond heb gael eu cyfyngu i'r isod yn unig:

- cynlluniau llwybrau cysylltu mawr (ffyrdd, rheilffyrdd, môr, awyr neu gamlesi);
- cloddio a mwyngloddio brig;
- aneddiad mawr;
- datblygiadau hamdden mawr;
- ehangu ar raddfa fawr ym maes diwydiant, prosesu, gweithgynhyrchu neu fasnach;
- tirlenwi ac adfer tir, gwaredu gwastraff neu gynlluniau ailgylchu, ar raddfa fawr;
- gweithfeydd mawr i ddraenio, diogelu'r arfordir ac atal llifogydd;
- prosiectau i greu, cadw a dosbarthu pŵer;
- cynlluniau mawr i dynnu, trin neu gyflenwi dŵr;
- prosiectau tebyg eraill i ddarparu isadeiledd ar raddfa fawr;
- coedwigo neu newidiadau eang eraill i ddefnydd tir amaethyddol;
- prosiectau amaethyddiaeth neu ffermio dŵr dwys.

2.7 Dylid hefyd ystyried gwybodaeth ar y Gofrestr wrth gysidro datblygiadau nad ydynt ar raddfa fawr nac yn eang eu hunain, ond sydd o natur radicalaidd ac sy'n debygol o achosi newid annerbyniol pan gânt eu cysidro mewn perthynas â natur ac ansawdd yr elfennau neu'r nodweddion hanesyddol allweddol presennol yn yr ardal o dirwedd ar y Gofrestr.

2.8 Mae angen gwneud Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (EIA) ar fathau penodol o ddatblygiadau yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) (Lloegr a Chymru) 1999–SI 1999 Rhif 293 (Rheoliadau EIA). Rhoddir canllawiau ar ddefnyddio'r Rheoliadau EIA yng Nghymru yng Nghylchlythyr 11/99 y Swyddfa Gymreig ar *Asesiad Effeithiau Amgylcheddol* (EIA) (Cylchlythyr 11/99). Mae Atodlen 4 i Reoliadau EIA (fel y'i hatgynhyrchwyd yng Nghylchlythyr 11/99, t.47, Atodiad C) yn nodi'r wybodaeth i'w chynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol. Dywed adran 3 bod angen cynnwys:

'Disgrifiad o'r agweddau ar yr amgylchedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y datblygiad…gan gynnwys y dreftadaeth bensaernïol ac archeolegol, a'r tirwedd.'

Mae hyn yn cynnwys ardaloedd o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr.

2.9 Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, bydd angen EIA ar yr holl ddatblygiadau a restrir yn 2.6 o ganlyniad i'w natur a'u graddfa. Mewn achosion eraill, ystyrir pob datblygiad ar gyfer EIA yn ôl ei haeddiant ei hun, a pho fwyaf amgylcheddol sensitif mae'r lleoliad, mwyaf tebygol ydyw y bydd yr effeithiau yn sylweddol ac y bydd angen EIA arno. Dylai'r ffaith bod lleoliad o fewn ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr gael ei hystyried yn ffactor sy'n cynyddu ei sensitifrwydd amgylcheddol cyffredinol, ac felly, yn cynyddu'r angen am EIA yn ôl Rheoliadau EIA Atodlen 3 o ran 'tirweddau o arwyddocâd hanesyddol, diwylliannol neu archeolegol' (Cylchlythyr 11/99, tud. 46, Maen Prawf 2 (c) (viii). Dylai awdurdodau cynllunio neu awdurdodau cymwys eraill ystyried hyn wrth sgrinio ceisiadau i bennu'r angen am EIA gan dderbyn cyngor gan GCGC ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru os bydd angen.

2.10 Yn sgîl dyfarniad Rochdale (Uchel Lys: Y Goron v Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Rochdale, 7/5/1999), pan fydd angen EIA, bydd datblygiad sefydlog o fewn ardal o dirwedd hanesyddol yn gofyn am broses asesu ystyrlon a nodir pan bennir cwmpas EIA. Pan fydd angen EIA am ddatblygiad o fewn ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, wrth gytuno ar gwmpas y gwaith, dylai awdurdodau cynllunio neu awdurdodau cymwys eraill ofyn i aseswyr ddefnyddio'r fethodoleg a nodir yn yr Atodiad Technegol ar gyfer asesu arwyddocâd effeithiau'r cynnig ar yr ardal o dirwedd hanesyddol.

2.11 Pan na fydd angen EIA, mae'n fater i'r awdurdod cynllunio neu'r awdurdod cymwys arall i benderfynu'r lefel o Asesiad o Arwyddocâd Effeithiau Datblygiad ar Ardaloedd o Dirwedd Hanesyddol ar y Gofrestr (ASIDOHL) y mae'n ei hystyried yn ddymunol wrth gysidro cynnig datblygu sydd ar y fath raddfa, neu o'r fath natur radicalaidd fel y mae'n debygol o gael mwy nag effaith leol yn unig ar ardal ar y Gofrestr. Gellid ystyried bod datblygiad penodol yn gofyn am y broses ASIDOHL lawn a amlinellwyd yn yr Atodiad Technegol, neu, gallai natur y datblygiad ofyn am ddefnyddio rhan yn unig o'r broses ASIDOHL. Mae cyngor manwl ar gael gan GCGC ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru.

2.12 Er i'r cyngor yn y Canllaw a'r Atodiad Technegol hwn gael ei gynllunio i gynorthwyo'r broses o sicrhau diddordebau ac asesu arwyddocâd effeithiau, nid yw'n darparu opsiynau ar gyfer ystyried unrhyw waith lliniaru y gellid ei gynnig drwy ehangu neu adfer elfennau. Dylid asesu'r materion hyn ar wahân, gan ddibynnu ar ganlyniadau ymarferiad ASIDOHL yn ddelfrydol.

3.0 Rhaglen Nodweddu Tirweddau Hanesyddol

3.1 Law yn llaw â chreu'r Gofrestr, mae Cadw ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru yn ymgymryd â rhaglen o Nodweddu Tirweddau Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn dwyn ynghyd wybodaeth fanylach am bob ardal ar y Gofrestr, ac mae wedi'i ddylunio i ddiwallu amryw o anghenion, ond yn bennaf i ddarparu gwybodaeth am gadwraeth a rheoli tirweddau sef gwybodaeth a allai, er enghraifft fod yn ofynnol yng nghynllun amaeth amgylcheddol Tir Gofal.

3.2 Cesglir gwybodaeth yn y fath fodd fel ei bod yn cydweddu ac yn gyfnewidiol â'r agwedd 'tirwedd hanesyddol' yng nghynllun *LANDMAP* CCGC, fel y gellir trosglwyddo canlyniadau astudiaeth nodweddu yn uniongyrchol i ymarfer *LANDMAP* ac i'r gwrthwyneb. Cyn belled ag y mae a wnelo'r Canllaw hwn, dylai'r wybodaeth am nodweddion gael ei defnyddio bob amser ar gyfer ASIDOHL, fel y dangosir yn yr Atodiad Technegol i'r Canllaw hwn.

3.3 Mae CCGC, Coleg Prifysgol Dulyn, a Brady Shipman Martin, Dulyn, yn gweithio mewn partneriaeth a noddwyd gan Gronfa Gymorth Rhanbarthol Ewropeaidd INTERREG II, wedi cynhyrchu *Canllaw at Arferiad Gorau ar gyfer Asesu Morweddau* (Y Sefydliad Morol, Dulyn, 2001). Mae asesu morweddau yn ystyried materion hanesyddol a diwylliannol a bwriedir y bydd astudiaethau asesu ar gael mewn amser ar gyfer y cyfan o arfordir Cymru. Dylai sefydliadau neu unigolion sy'n ymgymryd ag ASIDOHL mewn ardaloedd arfordirol gysylltu â CCGC i gael y wybodaeth ddiweddaraf am forweddau.

4.0 Sut y caiff Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol eu nodi

4.1 Mae'r broses o ddynodi nodweddion yn rhannu pob ardal o dirwedd ar y Gofrestr yn nifer o ardaloedd daearyddol llai, mwy cynnil o nodweddion hanesyddol gweddol gyson a elwir yn Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol. Diffinnir yr ardaloedd hyn yn ôl eu nodweddion neu elfennau hanesyddol allweddol. Er enghraifft, gallai ardal gael ei nodweddu'n ffisegol gan ryw ffurf benodol ar aneddiad hanesyddol neu batrwm defnydd tir, neu mae'n bosibl y bydd ganddi adeiladau hanesyddol amlwg, safleoedd archeolegol neu derfynau traddodiadol ar gaeau, neu gallai gynnwys cynefinoedd hynafol pwysig ac ati. Neu, fel arall, hwyrach na fydd gan ardal unrhyw nodweddion ffisegol pendant cryf, ond yn hytrach gall fod yna dystiolaeth ddogfennol o bwys hanesyddol yn perthyn iddi, neu gysylltiadau hanesyddol pwysig ac ati.

4.2 Gall yr holl nodweddion neu elfennau hyn fod naill ai yn rhai unigol neu'n rhai cyfunol. Mewn rhai achosion, gall ardal gael ei nodweddu gan ystod o elfennau nad ydynt o reidrwydd

yn debyg i'w gilydd, ond gyda'i gilydd gallant arddangos thema defnydd tir penodol neu broses sydd wedi bod ar waith; er enghraifft, amddiffyn, diwydiant, llwybrau cyswllt, amgáu tir, cynllunio neu addurno tirwedd ac ati. Gall un thema fod yn flaenllaw neu mae'n bosibl i nifer ohonynt fod ar waith ar yr un pryd, neu ar adegau gwahanol. Mae grwpio nodweddion ac elfennau o dan themâu defnydd tir yn gwella ein gallu i ddeall datblygiad hanesyddol y tirwedd. Mae'r ddealltwriaeth yr ydym yn ei magu yn nodwedd allweddol ei hun ac yn un o'r egwyddorion sy'n sail i adnabod tirweddau hanesyddol (adran 6.2).

5.0 Cael gwybodaeth am Nodweddu Tirweddau Hanesyddol ac Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol

5.1 Mae canlyniadau'r rhaglen nodweddu yn cael eu casglu mewn cyfrolau papur sy'n ymdrin ag ardaloedd unigol o dirweddau hanesyddol neu nifer o ardaloedd cyfagos â'i gilydd ar y Gofrestr. Mae'r cyfrolau ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru lle gellir cael cyngor ar argaeledd y cyfrolau diweddaraf a gynhyrchir wrth i'r rhaglen nodweddu fynd yn ei blaen, gan ymdrin i ddechrau ag ardaloedd o dirwedd hanesyddol 'eithriadol' ac wedyn ag ardaloedd o dirwedd hanesyddol 'arbennig'. Dros y blynyddoedd nesaf bydd y wybodaeth hon yn cael ei gosod ar wefannau Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru (Ceir cyfeiriadau'r Ymddiriedolaethau yn yr Atodiad). Pan gyhoeddwyd y Canllaw hwn, roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd o dirwedd hanesyddol 'eithriadol' wedi'u nodweddu ac roedd gwaith wedi dechrau ar yr ardaloedd o dirwedd hanesyddol 'arbennig'.

5.2 Yn yr ardaloedd o dirweddau hanesyddol sydd ar y Gofrestr ond nad oes adroddiadau nodweddu ar gael amdanynt eto, a lle mae angen ASIDOHL, argymhellir y dylid ymgymryd ag ASIDOHL mewn perthynas ag 'Ardaloedd Dros Dro o Nodweddion Hanesyddol'. Dynodir Ardaloedd Dros Dro o Nodweddion Hanesyddol yn ystod cyfnod paratoi'r adroddiadau nodweddu a gellir cael manylion am y rhain gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru. Mewn achosion lle nad yw adroddiadau nodweddu ar gael eto, ond mae ymarferiad *LANDMAP* wedi'i gyflawni, gall yr 'ardaloedd o agweddau tirwedd hanesyddol' Lefel 4 a ddynodwyd yn *LANDMAP* fod yn gymwys i'w dynodi'n Ardaloedd Dros Dro o Nodweddion Hanesyddol, yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth dan sylw. Mewn achosion lle nad yw Ardaloedd Dros Dro o Nodweddion Hanesyddol wedi'u hadnabod, gall yr Ymddiriedolaethau gynghori ar fethodoleg addas, neu gallant gael eu comisiynu i ddynodi Ardaloedd Dros Dro o Nodweddion Hanesyddol fel rhagamod ar gyfer ymgymryd ag ASIDOHL.

6.0 Egwyddorion allweddol sy'n sail i ddynodi tirweddau hanesyddol

6.1 Mae'n rhaid i'r Canllaw hwn a'r cyngor sydd ynddo gael eu hystyried yng nghyd-destun y tair egwyddor allweddol sy'n sail i adnabod yr ardaloedd o dirweddau hanesyddol ar y Gofrestr, sef:

6.2 Mae'r Gofrestr yn hyrwyddo gwarchod nodweddion allweddol tirweddau hanesyddol wrth i'r tirweddau hynny ddatblygu. Er bod y Gofrestr yn cydnabod bod yn rhaid i dirweddau hanesyddol ddatblygu i ddiwallu anghenion y bobl sy'n eu cynnal ac sy'n byw ynddynt, y gobaith yw y gellir cyflawni hyn gan roi ystyriaeth ofalus iawn i warchod eu nodweddion hanesyddol allweddol. Yma, dehonglir y term 'nodweddion' yn ôl ei ystyr ehangaf. Nid yn unig y mae'n cynnwys elfennau ffisegol sy'n goroesi o'r gorffennol, megis safleoedd unigol, henebion neu nodweddion eraill a nodwyd yn adran 4.0, ond hefyd y bylchau rhyngddynt a'r patrymau a welir yn y tirwedd o ganlyniad i hynny. Mae goroesiad y nodweddion gofodol hyn a'r gwerth a roddir iddynt yn fater o'r pwys mwyaf oherwydd, fel y themâu defnydd tir a ganfyddir yn ystod nodweddu, maent yn gwella ein gallu i ddeall sut oedd safleoedd unigol neu henebion yn gweithio a sut roeddynt yn perthyn i'w gilydd yn ffisegol, yn weledol a thros amser. Mae maint a safon ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o ystyr ac arwyddocad hanesyddol y tirwedd yn nodwedd allweddol ei hun. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ail egwyddor.

6.3 Mae cadwraeth tirweddau hanesyddol yn ymwneud â sicrhau y trosglwyddir cymaint ag y gellir o'u hystyr hanesyddol a'u gwerth wrth ystyried newid tirwedd. Ni ddylai ein gallu i ddeall a gwerthfawrogi datblygiad hanesyddol y tirwedd gael ei rwystro gan newid amhriodol neu ansensitif. Golyga hyn fod angen asesu effeithiau potensial y datblygiad, o ran unrhyw newid parhaol y byddai'n ei achosi, mewn perthynas â'r tirwedd hanesyddol cyfan ar y Gofrestr, nid yn unig y nodweddion neu'r elfennau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn yr ardal 'ôl-troed'. Mae hyn yn gysylltiedig â'r drydedd egwyddor.

6.4 Mae nodweddion allweddol hanesyddol mewn tirweddau hanesyddol, yn nodweddion anhepgorol na ellir byth eu hail-greu, ac maent yn unigryw yn yr un modd ag | y mae adeiladau hanesyddol neu safleoedd archeolegol. Ni ellir lliniaru ar effeithiau dileu, colli, diraddio, darnio neu ddadleoli yn yr un modd ag y gellir adfer neu ail-greu cynefin neu nodwedd naturiol. Ni ellir gwrth-droi effeithiau uniongyrchol, ffisegol arnynt, ond gall effeithiau yr un mor niweidiol a'r un mor anuniongyrchol ddigwydd trwy ddatgysylltu neu ymyrryd â'r cysylltiadau gweithredol neu weledol rhwng elfennau â'i gilydd, neu drwy amharu

ar yr agweddau gweledol neu agweddau eraill, neu drwy gyfuniad o'r ffactorau hyn. Mae hyn yn cyfeirio'n ôl at yr ail egwyddor oherwydd, trwy eu heffeithiau anuniongyrchol, gall datblygiadau gael effaith niweidiol ar fwynderau a gwerth y tirwedd, a hynny ar raddfa sy'n ymestyn y tu hwnt i safle'r datblygiad ei hun. Gall datblygiad fesul tipyn dros gyfnod gael effaith yr un mor andwyol yn sgîl cyfuniad o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

7.0 Arweiniad ar bennu ymylon tirweddau ac ar statws elfennau neu nodweddion diweddar yn yr ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr

7.1 Derbynnir yn gyffredinol ei bod yn anodd pennu union ymylon i dirweddau. Er bod tirweddau yn bodoli yn yr ystyr eu bod wedi'u ffurfio gan wrthrychau solet a gwagleoed, maent hefyd yn oddrychol, a bydd eu graddau, yn ôl dirnadaeth pobl, yn ymwneud â rhywfaint o farn neu fuddioldeb unigol. Felly, o ran terfynau unrhyw ardal benodol o ddiddordeb mewn tirwedd, gellir bob amser gofyn a yw elfen benodol wedi'i chynnwys neu ei hepgor. Mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i'r ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr.

7.2 Er mwyn cynorthwyo awdurdodau cynllunio ac awdurdodau eraill sydd angen mwy o fanylder yn eu gwaith, mae'r adran hon yn rhoi arweiniad ar y broses o bennu ymylon yr ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr, pennu ymylon yr Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol a nodwyd gan y broses nodweddu, a'r berthynas rhwng y ddwy.

7.3 Mabwysiadwyd ymagwedd ymarferol sy'n gofyn am synnwyr cyffredin er mwyn pennu graddau eang yr ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr. Eglurir y fethodoleg yn fanwl yn y cyflwyniad i'r Gofrestr ('Diffinio'r ardaloedd', Rhan 2.1, tt xxx — xxxi). Yn fras, pennwyd graddau'r ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr gan natur y diddordeb hanesyddol dan sylw, ac mewn llawer o achosion, o ganlyniad i dopograffeg amrywiol Cymru, roedd yr ardaloedd o dirwedd yn cyd-daro â therfynau ffisegol nodweddion naturiol fel mynyddoedd, cymoedd, basnau, pentiroedd ac ati.

7.4 Oherwydd eu natur, bydd ymylon Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol yn cyd-daro â therfynau daearyddol neu ffisegol eu nodweddion. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn cynhyrchu union ymylon y gellir eu dangos fel llinellau caled ar fapiau. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y rhain yn cynrychioli ymylon yr ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr.

7.5 Er y gallai ymddangos fod eu hymylon yn cyd-daro, wrth i'r rhaglen nodweddu fynd rhagddi, canfuwyd mewn rhai ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr, yn arbennig y rhai a nodwyd o dan Faen Prawf 3 — Amrywiaeth Hanesyddol/Amlgyfnod, y gallai ymylon Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol ddisgyn y tu allan i raddau'r ardal o dirwedd ar y Gofrestr. Mae hyn am fod Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol yn cael eu nodi ar raddfa lai o lawer ac ar lefel llawer fanylach nad oedd yn bosibl ar gyfer yr ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr, a phan geir llawer iawn o amrywiaeth, gellir llunio ymylon mewn nifer o fannau, yn dibynnu ar ba nodwedd a ddewisir fel y nodwedd bwysicaf.

7.6 Er mwyn datrys yr amwysedd posibl hwn, cynigir y cyngor canlynol. Yn nhermau cynllunio, mae statws y Gofrestr yn anstatudol, ac mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am nodweddu y bwriedir iddi ategu'r Gofrestr. Felly, dim ond arwydd neu gyngor yw graddau'r ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr a'r Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol.

7.7 Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio neu awdurdod cymwys arall sy'n cynnal EIA, neu'r Arolygydd Ymchwiliad Cyhoeddus dan sylw, fydd pennu lle y dylid llunio union ymyl. Dylid ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn y Gofrestr a'r adroddiad nodweddu perthnasol a'i phwyso a'i mesur yn erbyn natur a graddau'r datblygiad arfaethedig a'i effaith ddisgwyliedig ar yr ardal o dirwedd ar y Gofrestr. Yn ôl yr egwyddor arweiniol, pan fydd angen llunio ymylon, dylent fod mor gyson â phosibl gyda cadwraeth yr elfennau neu'r nodweddion hanesyddol sy'n dangos diddordeb eithriadol neu arbennig yr ardal o dirwedd ar y Gofrestr.

7.8 Gall amwysedd neu gamddealltwriaeth posibl arall godi yn sgîl presenoldeb elfennau neu nodweddion diweddar a allai fod o ychydig o ddiddordeb hanesyddol, os o gwbl, mewn ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr. Oherwydd y byddai hepgor yr elfennau neu'r nodweddion hyn wedi bod yn amhosibl ac yn weddol ddibwrpas yn nhermau'r tirwedd, mabwysiadodd y Gofrestr ymagwedd ymarferol drwy ragdybio fod 'hanes wedi dechrau ddoe' (Rhan 2.1, t. xxii, 'Meini prawf ar gyfer tirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu arbennig'). Er y gallai'r rhagdybiaeth hon fod yn gywir yn ddamcaniaethol, nid yw'n gymorth yng nghyd-destun cynllunio. Felly, ni ddylid dehongli'r broses o gyfeirio at elfennau neu nodweddion diweddar mewn ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr fel proses sy'n rhoi gormod o bwyslais ar eu pwysigrwydd cynhenid, ond yn hytrach, dylid ei hystyried fel proses sy'n canolbwyntio ar eu swyddogaeth ehangach wrth gyfrannu at amrywiaeth a pharhad tirwedd dros gyfnod hwy o lawer. Felly, bydd angen ystyried pob achos yn unigol wrth benderfynu pa bwyslais i'w roi ar gyfraniad elfennau neu nodweddion diweddar i'r ardaloedd o dirwedd ar y Gofrestr.

ATODIAD TECHNEGOL

Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y wybodaeth yn y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol wrth ystyried goblygiadau datblygiadau sydd ar raddfa mor fawr y byddent yn cael effaith yr hyn a fyddai'n fwy nag effaith leol ar ardal ar y Gofrestr. Byddai cloddio ar raddfa'r chwarel bresennol hon o fewn tirwedd hanesyddol Comin Treffynnon a Mynydd Helygain yn enghraifft o ddatblygiad o'r fath.

Y BROSES ASIDOHL: PROSES CAM WRTH GAM AR GYFER ASESU ARWYDDOCÂD EFFEITHIAU DATBLYGIAD AR ARDALOEDD O DIRWEDD HANESYDDOL AR Y GOFRESTR O DIRWEDDAU O DDIDDORDEB HANESYDDOL YNG NGHYMRU

Cyflwyniad

Bwriedir i'r broses cam wrth gam a argymhellir yn yr Atodiad Technegol hwn ar gyfer asesu arwyddocâd effaith datblygiad ar ardaloedd o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr (ASIDOHL) gael ei defnyddio gan archeolegwyr sy'n arbenigo ym maes tirweddau hanesyddol neu ar gyfer ymarferwyr tirwedd sy'n gyfarwydd ag ymagweddau at y tirwedd mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol.

Dylid ceisio arweiniad ar y broses ac ar y camau technegol sy'n rhaid eu cymryd yn y lle cyntaf gan yr Ymddiriedolaethau Archeolegol yng Nhymru. Byddant hefyd yn gallu rhoi cyngor ar y diwygiadau diweddaraf a darparu, drwy eu gwefannau, ffurflenni gwag o'r tablau a ddefnyddir ar bob cam o'r broses asesu. O ganlyniad i natur amrywiol yr amgylchedd hanesyddol a'r amrywiaeth cynyddol o newidiadau a all effeithio arno, efallai na fydd y broses hon, ar ei ffurf bresennol, yn briodol, neu'n berthnasol, i'r holl sefyllfaoedd cynllunio a datblygu a allai godi. Felly, bwriedir i'r broses gael ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r profiad ymarferol sy'n datblygu. At y diben hwn buasai'r cyrff sy'n ei noddi yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â gweithredu'r broses.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gall asesiad fod yn seiliedig yn bennaf ar astudiaeth pen-desg a dadansoddiad o'r holl wybodaeth berthnasol, a ategir gan ymweliad (au) safle (gan gynnwys, lle y bo angen, gwaith maes i sefydlu'r 'Ardaloedd Dros Dro o Nodweddion Hanesyddol' a nodir yn adran 5.2) a llunio adroddiad ysgrifenedig. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r achosion hynny yn unig.

Gan gymryd yr Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol sy'n deillio o'r rhaglen nodweddu fel y 'sylfeini' ar gyfer yr ardaloedd o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, argymhellir bod y broses a'r adroddiad ASIDOHL yn cael eu strwythuro i bum prif gam:

TABL 1

ASESIAD O ARWYDDOCÂD EFFAITH DATBLYGIAD ARDALOEDD O DIRWEDD HANESYDDOL AR Y GOFRESTR O DIRWEDDAU O DDIDDORDEB HANESYDDOL YNG NGHYMRU — ASIDOHL

CRYNODEB O'R CAMAU

CAM 1 Llunio cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth hanfodol, gyd-destunol.

CAM 2 Disgrifio a meintioli effeithiau uniongyrchol, ffisegol, datblygiad ar yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol yr effeithir arni (arnynt).

CAM 3 Disgrifio a meintioli effeithiau anuniongyrchol datblygiad ar yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol yr effeithir arni (arnynt).

CAM 4 Gwerthuso pwysigrwydd cymharol yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol (neu ran(nau) ohoni (ohonynt)) yr effeithir arni (arnynt) yn uniongyrchol a/neu'n anuniongyrchol gan y datblygiad mewn perthynas â'r:
(a) Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol cyfan o dan sylw; neu
(b) ardal gyfan o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, yn cael ei ddilyn gan;
(c) gwerthuso pwysigrwydd cymharol yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol o dan sylw yn y cyd-destun cenedlaethol, a penderfyniad ar werth yr holl Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol (neu rannau ohonynt) yr effeithir arnynt, ar gyfartaledd ac yn gyffredinol.

CAM 5 Asesu arwyddocâd cyffredinol effaith y datblygiad, a'r effeithiau y byddai addasu'r Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol o dan sylw yn eu cael ar yr ardal gyfan o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr.

CAM 1 Gwybodaeth gyd-destunol

Cam cyntaf y broses ASIDOHL yw casglu gwybodaeth gyd-destunol hanfodol a ddylai ddarparu cyflwyniad i'r adroddiad. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys:

(a) Disgrifiad cryno o'r datblygiad, gyda map ar y raddfa briodol yn dangos ei leoliad mewn perthynas â'r ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr.

(b) Datganiad ynglŷn â'r cyd-destun y mae'r ASIDOHL yn cael ei gynnal ynddo, er enghraifft, fel rhan o EIA, astudiaeth ymarferoldeb ar gyfer datblygiad, fel rhan o'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno mewn Ymchwiliad Cyhoeddus ac ati.

(c) Os yw'n berthnasol, crynodeb byr o hanes cynllunio'r safle (manylion unrhyw ganiatâd a roddwyd yn y gorffennol, apeliadau ac ati).

(d) Cyfeiriadau at unrhyw asesiadau cysylltiedig, er enghraifft, astudiaeth *LANDMAP*, astudiaeth archeolegol o dan ddarpariaethau Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96, EIA, neu asesiad blaenorol ac ati.

(e) Crynodeb o bolisïau cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn perthynas â thirweddau hanesyddol yn yr ardal ddatblygu (arweiniad cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynlluniau Datblygu Unedol ac ati).

(f) Mewn achosion perthnasol, arwydd o statws dros dro unrhyw Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol (gweler adran 5.2).

(g) Awgrym o lefelau hyder y data y mae'r ASIDOHL yn seiliedig arno ac unrhyw derfynau canlyniadol a bennwyd i ragolygon effaith, naill ai oherwydd technegau a ddefnyddiwyd neu oherwydd terfynau'r wybodaeth sydd ar gael, yr amser neu'r personél a ddefnyddiwyd, anallu i gael mynediad i'r tir neu'r data sy'n ymwneud â'r mater, atebolrwydd amodol neu o fath arall materion cyfrinachedd, hawlfraint ac ati.

(h) Datganiad ar gymwysterau a phrofiad y person(au) sy'n gyfrifol am ymgymryd â'r ASIDOHL a datganiad llawn o natur unrhyw berthynas rhwng y contractwr a'r cleient.

(i) Disgrifiad o'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef, yr ardal yr aseswyd yr effeithiau drostynt, ffynonellau yr ymgynghorwyd â hwy, ymweliadau â safleoedd ac ati, ac awgrym o'r camau ASIDOHL a ddefnyddiwyd.

Dylai copïau o'r cyfeiriad at y tirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, y disgrifiadau o'r Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol yr effeithir arni (arnynt) ac unrhyw wybodaeth berthnasol ategol, mapiau, ffotograffau ac ati fel arfer gael eu cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad ASIDOHL.

CAM 2 Asesu effeithiau uniongyrchol, ffisegol datblygiad

Dylai ail gam y broses ASIDOHL a'r adroddiad ddisgrifio, a chyn belled ag y bo modd, meintioli effeithiau uniongyrchol, ffisegol y datblygiad ar yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol yr effeithiwyd arni (arnynt) gan ddefnyddio'r fframwaith canlynol.

Dylid darparu map ar y raddfa briodol yn dangos union leoliad a maint y datblygiad, gan gynnwys unrhyw waith rhagarweiniol ar y safle neu'r seilwaith cynhaliol angenrheidiol, mewn perthynas â'r Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol yr effeithiwyd arni (arnynt) yn uniongyrchol.

Pan fo llawer o wybodaeth yn bodoli neu os oes unrhyw amwysedd, gellid darparu map(iau) atodol i ddangos lleoliad Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig, ac unrhyw ddynodiadau cyfatebol statudol, cadwraeth natur neu dirwedd eraill; a lleoliad unrhyw safleoedd archeolegol a henebion hysbys nad ydynt wedi'u cofrestru, adeiladau neu strwythurau hanesyddol nad ydynt wedi'u rhestru; ffiniau traddodiadol, neu unrhyw elfennau neu nodweddion hanesyddol allweddol eraill a nodwyd yn yr adroddiad nodweddu. (Nid yw'r gwahaniaeth rhwng elfennau a nodweddion o bwys mawr. Yng nghyd-destun ymarfer ASIDOHL a'i gamau cyfansoddol, nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd, a chyfeirir at y diffiniadau a nodir yn adrannau 4.1, 4.2 a 6.2.) Dylid disgrifio a meintioli effeithiau uniongyrchol, ffisegol mewn tair ffordd, sef:

(a) Mewn termau absoliwt
Dylid mynegi hyn fel datganiad sy'n nodi canran wirioneddol yr Ardal o Nodweddion Hanesyddol yr effeithir arni yn uniongyrchol, er enghraifft, 'Caiff pumdeg pump y cant (neu ychydig dros hanner) o'r Ardal o Nodweddion Hanesyddol X ei cholli neu ei dileu yn barhaol yn sgîl datblygiad.' (Mewn rhai achosion, gallai canran yr ardal yr effeithir arni fod yn fwy na maint ffisegol y datblygiad, er enghraifft, pe bai angen ardal o dir sy'n fwy na neu sydd arwahan i safle'r datblygiad ar gyfer datblygiadau atodol neu seilweithiau cynhaliol.)

(b) Mewn termau cymharol
Dylid mynegi hyn fel datganiadau sy'n nodi canrannau neu gyfrannau'r adnodd hysbys (h.y. yr elfennau neu'r nodweddion allweddol a nodwyd gan y broses nodweddu) a gaiff eu colli neu eu dileu yn barhaol yn sgîl datblygiad, er enghraifft, 'Yn Ardal o Nodweddion Hanesyddol X, caiff 25% (neu chwarter) o, er enghraifft, …nifer y safleoedd archeolegol hysbys; …maint y defnydd o dir hanesyddol neu batrwm yn ardal A; …hyd nodwedd llinellol B, …ac ati, eu colli neu eu dileu yn barhaol yn sgîl datblygiad.

Yn (a) a (b), dylid graddio maint yr effeithiau uniongyrchol, ffisegol fel a ganlyn:

TABL 2

CAM 2 ASIDOHL: GRADDAU EFFEITHIAU UNIONGYRCHOL FFISEGOL

80–100%	wedi'u colli neu eu dileu yn barhaol	Difrifol Iawn;
60–79%	wedi'u colli neu eu dileu yn barhaol	Difrifol;
40–59%	wedi'u colli neu eu dileu yn barhaol	Sylweddol;
20–39%	wedi'u colli neu eu dileu yn barhaol	Cymedrol;
5–19%	wedi'u colli neu eu dileu yn barhaol	Ychydig;
1–4%	wedi'u colli neu eu dileu yn barhaol	Ychydig Iawn.

Dylid disgrifio yn gryno bwysigrwydd neu statws cynhenid pob elfen yr effeithir arni a'u cofnodi gan ddefnyddio'r categorïau a fabwysiadwyd gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru, sef:

Categori A Safleoedd a Henebion o Bwysigrwydd Cenedlaethol

Mae hyn yn cynnwys Henebion Cofrestredig (SAM), Adeiladau Rhestredig Gradd I a II* (a rhai Gradd II) a safleoedd o ansawdd tebyg, h.y. y rheini a fyddai'n bodloni'r gofynion ar gyfer eu cofrestru neu eu rhestru ar y ddwy radd uchaf. Ceir rhagdybiaeth o blaid cadw pob safle a lleoliad o'r fath pe baent yn dod o dan fygythiad. Gallai safleoedd o'r fath gynnwys y rheini sy'n goroesi yn bennaf ar ffurf gweddillion a gladdwyd.

Categori B Safleoedd a Henebion o Bwysigrwydd Rhanbarthol

Mae hyn yn cynnwys safleoedd a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu rhestru ar Radd II (os yw'n adeilad), ond na fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cofrestru (os yw'n safle archeolegol creiriol). Serch hynny, mae safleoedd o'r fath o bwysigrwydd arbennig yn y cyd-destun rhanbarthol ac os ydynt o dan fygythiad, yn ddelfrydol dylid eu cadw in situ, er y gallai eu cloddio yn llawn ac/neu eu cofnodi fod yn ddewis amgen derbyniol. Bydd y rhan fwyaf o safleoedd o ddiddordeb archeolegol a/neu hanesyddol yn dod o dan y categori hwn.

Categori C Safleoedd / Nodweddion o Bwysigrwydd Lleol

Mae'r categori hwn yn cynnwys elfennau o'r amgylchedd hanesyddol (megis waliau, pyst gatiau, llwybrau ac ati) sy'n helpu i ddiffinio hynodrwydd a chymeriad lleol. Efallai nad ydynt o bwysigrwydd digonol i gyfiawnhau argymhelliad i'w cadw pe baent o dan fygythiad, ond maent, serch hynny, o ddiddordeb neu bwysigrwydd yn eu cyd-destun lleol.

Categori D Mân Safleoedd / Nodweddion a Safleoedd / Nodweddion a Ddifrodwyd

Mae'r categori hwn yn cynnwys safleoedd / nodweddion sydd o fân bwysigrwydd neu wedi'u difrodi gymaint fel nad oes digon o weddillion i gyfiawnhau eu cynnwys mewn categori uwch. Fel arfer, mae eu cofnodi'n gyflym, naill ai cyn iddynt gael eu dymchwel, neu yn ystod y broses o gael eu dymchwel, yn ddigonol ar gyfer safle yn y categori hwn.

Categori U Safleoedd / Nodweddion y mae Angen Ymchwilio Ymhellach Iddynt

Gosodir safleoedd / nodweddion y mae eu cymeriad, eu pwysigrwydd neu eu lleoliad yn ansicr yn y categori hwn. Maent yn cynnwys safleoedd claddedig a nodweddion hysbys o dan y ddaear a ddynodwyd yn sgîl tystiolaeth archifol a dadansoddiad map ôl-dremiol, safleoedd heb unrhyw bresenoldeb ffisegol a ddiffiniwyd megis safleoedd canfod, safleoedd a nodwyd ond nas lleolwyd yn gywir mewn cyfeiriadau hynafiaethol, safleoedd sy'n hysbys yn sgîl tystiolaeth enw'r lle a safleoedd eraill a gofnodwyd yn y lleoliad penodedig yn unig, ond na ellir ei gadarnhau gan waith maes archeolegol. Bydd angen gwaith pellach arnynt cyn y gellir eu rhoi yng Nghategorïau A-C.

Pan fydd ardaloedd mawr yn gysylltiedig â hyn, neu pan fydd llawer iawn o elfennau fel, er enghraifft, mewn ardaloedd diwydiannol neu drefol, awgrymir y dylid dod â grwpiau o elfennau tebyg, neu gysylltiedig, ynghyd a'u hystyried fel un elfen neu nodwedd.

(c) Mewn termau tirwedd

Yn ogystal â'r pwysigrwydd neu'r gwerth cynhenid a gofnodwyd yng ngham (b), dylid hefyd ystyried pwysigrwydd anghynhenid elfennau neu nodweddion o fewn tirwedd yr Ardal o Nodweddion Hanesyddol. Mae pwysigrwydd anghynhenid yn adlewyrchu cyfraniad yr elfen neu'r nodwedd unigol i werth yr Ardal o Nodweddion Hanesyddol gyfan. Bydd i'r Ardal o Nodweddion Hanesyddol werth sy'n fwy na gwerthoedd cyfunol yr elfennau neu'r nodweddion unigol sy'n ei ffurfio, ar y sail bod 'swm yr ardal gyfan yn fwy na swm y rhannau unigol'. Nid oes rhaid i'r elfennau neu'r nodweddion fod yn debyg, a gallant hyd yn oed amrywio, ond fel rhan o dirwedd, bydd ganddynt rywfaint o bwysigrwydd anghynhenid, yn ogystal â phwysigrwydd cynhenid.

Ni ddylid drysu rhwng pwysigrwydd anghynhenid a 'Gwerth Grŵp' elfennau neu nodweddion cysylltiedig mewn Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol lle y bydd thema neu broses un defnydd o dir yn flaenllau. Mae gwerth grŵp yn ymwneud â chysylltiadau a rhyng-gysylltiadau swyddogaethol yn bennaf sy'n digwydd rhwng elfennau unigol, a bydd yn dibynnu ar ba mor

dda y mae'r cysylltiadau wedi goroesi. Ymhlith yr enghreifftiau fyddai grwpiau yn cynnwys elfennau â morffoleg, cronoleg a swyddogaeth debyg (e.e. cae carneddi), neu elfennau â morffoleg annhebyg, ond sy'n rhannu rhyng-gysylltedd amlwg yn y gorffennol (e.e. gwaith haearn, system reoli dŵr, ceuffyrdd/lefelau/tyllau, tramffordd/rheilffordd, tomenni sbwriel ac efallai tai gweithwyr hefyd).

Yn amlwg, bydd y gwahaniaeth rhwng 'Pwysigrwydd Anghynhenid' a 'Gwerth Grŵp' yn dibynnu i ryw raddau ar lefel y manylion y nodwyd (a) elfennau neu nodweddion a (b) Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol. Fodd bynnag, yn y cam hwn o'r broses ASIDOHL, dylai'r pwyslais fod ar bennu gwerth anghynhenid, neu dirwedd, yr elfennau neu'r nodweddion, pa un a gânt eu ffurfio yn unigol gan grwpiau o nodweddion llai sydd â gwerth grŵp cynhenid uchel ai peidio. Gallai gwerth grŵp cynhenid uchel wella pwysigrwydd cyffredinol anghynhenid, neu dirwedd, elfen.

Dylid graddio pwysigrwydd anghynhenid, neu dirwedd, yr elfennau a nodwyd fel 'Uchel Iawn';'Uchel';'Canolig';'Isel', neu 'Dim'; ynghyd ag awgrym o'r math o grŵp y mae'n perthyn iddo, er enghraifft, fel yn yr enghreifftiau a roddir uchod.

Yna, dylid asesu'r effaith y byddai'r datblygiad yn ei gael ar bwysigrwydd anghynhenid yr elfen neu'r nodwedd gyfan. Dylai hyn adlewyrchu pa effeithiau y byddai colli elfen X (neu ran ohoni) yn eu cael ar dirwedd yr Ardal o Nodweddion Hanesyddol Y lle y canfyddi'r X. Mewn geiriau eraill, faint mae colli X yn gostwng gwerth Y fel tirwedd? Dylid graddio effeithiau fel ' Effaith Gwerth Tirwedd' sydd 'Wedi'i Golli'; 'Wedi'i Ostwng yn Sylweddol';'Wedi'i Ostwng yn Gymedrol'; 'Wedi'i Ostwng Ychydig', neu 'Heb ei Effeithio'.

Er mwyn pennu maint cyffredinol effeithiau uniongyrchol, ffisegol ar Ardal o Nodweddion Hanesyddol, ac er mwyn i'r canlyniadau fod yn glir ac yn ystyrlon at ddibenion cynllunio a datblygu, dylid ystyried maint effeithiau mewn perthynas â sensitifrwydd elfen (h.y. pwysigrwydd neu statws cynhenid neu anghynhenid), gan ddefnyddio'r system sgorio ganlynol:

TABL 3

CAM 2 ASIDOHL: EFFEITHIAU UNIONGYRCHOL FFISEGOL — GRADDAU A SGORIAU

SGÔR EFFEITHIAU A SENSITIFRWYDD ELFEN

Effeithiau uniongyrchol ffisegol — absoliwt	
Difrifol Iawn	6
Difrifol	5
Sylweddol	4
Cymedrol	3
Ychydig	2
Ychydig Iawn	1
Effeithiau uniongyrchol ffisegol — cymharol	
Difrifol Iawn	6
Difrifol	5
Sylweddol	4
Cymedrol	3
Ychydig	2
Ychydig Iawn	1
Categori'r safle	
A	3
B	3
C	2
D	1
U	1
Effeithiau uniongyrchol ffisegol — gwerth tirwedd	
Uchel Iawn	4
Uchel	3
Canolig	2
Isel	1
Dim	0
Effaith gwerth tirwedd	
Wedi'i Golli	4
Wedi'i Ostwng yn Sylweddol	3
Wedi'i Ostwng yn Gymedrol	2
Wedi'i Ostwng Ychydig	1
Heb ei Effeithio	0

Gellid crynhoi'r canlyniadau ar gyfer pob Ardal o Nodweddion Hanesyddol mewn tabl, er enghraifft:

TABL 4

CAM 2 ASIDOHL: ASESIAD O EFFEITHIAU UNIONGYRCHOL, FFISEGOL AR ARDAL O NODWEDDION HANESYDDOL X

EFFAITH ABSOLIWT (COLLI ARDAL)
48 hectar, 55% ardal

MAINT A SGÔR
Sylweddol — 4

EFFEITHIAU CYMHAROL A THIRWEDD (COLLI NODWEDDION NEU ELFENNAU HYSBYS) A SGORIAU

ELFEN / % COLLED	CATEGORI	MAINT YR EFFAITH	GWERTH TIRWEDD	EFFAITH GWERTH TIRWEDD
Tramffordd R — 0.3 cilomedr o hyd, 15%	B — 3	Ychydig — 2	Uchel — rhan o gyfadail chwarel G — 3	Wedi'i Ostwng Ychydig — 1
Cyfundrefn Gaeau Y — 2.3 hectar, 85%	C — 2	Difrifol Iawn — 5	Uchel — rhan o glwster anheddiad P — 3	Wedi'i Ostwng yn Sylweddol — 3
Llwyfannau Cytiau A — 4 safle, 30%	A — 4	Cymedrol — 3	Canolig — rhan o anheddiad R — 2	Wedi'i Ostwng yn Gymedrol — 2
Cyfadail olion cnydau B — 1.0 hectar, 65%	A (SAM) — 4	Difrifol — 4	Uchel — rhan o gyfadail defodol T — 3	Wedi'i Golli — 4
Coetir Hynafol C — 0.3 hectar, 3%	B — 3	Ychydig — 1	Dim — 0	Heb ei Effeithio — 0

Caiff y sgoriau ar gyfer pob elfen (h.y. Statws + Maint + Gwerth Tirwedd + Effaith Gwerth Tirwedd) eu hadio at ei gilydd i gynhyrchu cyfanswm cyfunol. Yna, rhennir y ffigur hwn gan nifer yr elfennau a nodwyd, er mwyn cael ffigur ar gyfartaledd. Yn yr enghraifft a ddangosir uchod, byddai hyn yn:

(3+2+3+1) + (2+5+3+3) + (4+3+2+2) + (4+4+3+4) + (3+1+0+0) wedi ei rannu â 5 = 10.4

Yna, caiff y sgôr cyfartalog hwn ei adio i'r sgôr ar gyfer maint yr effaith absoliwt, sef 4 yn yr achos hwn:

10.4 + 4 = 14.4, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyflawn agosaf = 14

Ar raddfa 24 pwynt, sef y sgôr uchaf posibl, mae'r ffigur yn darparu mesur o faint cyffredinol yr effeithiau uniongyrchol, ffisegol ar Ardal o Nodweddion Hanesyddol X. Yna, caiff sgoriau eu graddio yn ôl y raddfa ganlynol:

TABL 5

CAM 2 ASIDOHL: MAINT CYFFREDINOL YR EFFEITHIAU UNIONGYRCHOL FFISEGOL

SGÔR	GRADD
21–24	Difrifol Iawn
17–20	Difrifol
13–16	Sylweddol
9–12	Cymedrol
5–8	Ychydig
1–4	Ychydig Iawn

Yn yr enghraifft a ddangosir, felly, mae sgôr o 14 yn gyfwerth â maint cyffredinol 'Sylweddol' o effaith uniongyrchol, ffisegol ar Ardal o Nodweddion Hanesyddol X.

CAM 3 Asesu effeithiau anuniongyrchol datblygiad

Mae'n amlwg y bydd datblygiad yn effeithio ar ardal benodol o dir yn uniongyrchol ac yn ffisegol, ond effeithir ar ardal lawer ehangach yn anuniongyrchol yn sgîl darnio Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol, amharu'n weledol arnynt, a llechfeddiant a allai israddio'r ardal gyfan o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr. Mae pwysigrwydd 'lleoliad' yn faen prawf hirsefydledig wrth asesu arwyddocâd effaith datblygiad ar Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig, a dylid defnyddio'r un meini prawf i asesu Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol ac ardaloedd o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr.

Ni cheir unrhyw ddiffiniad statudol o leoliad, ond gellid ystyried bod iddo ddwy brif ddimensiwn. Yn gyntaf, ceir lleoliadau cyfagos a fyddai, yn achos adeilad, yn dir atodol a ddefnyddir gydag ef neu'r cwrtil. Yn ail, ceir y lleoliadau ehangach a allai, yn achos adeilad fod wedi'i ychwanegu yn gyfreithiol neu beidio ato, a allai gael ei ddefnyddio gydag ef neu beidio, ac sydd yn aml yn rhan o amgylchedd adeiledig neu ran o gefn gwlad. Nid yw'n hawdd diffinio lleoliadau ar gyfer henebion yn y maes, ond gallai fod yn bosibl gwneud casgliadau rhesymol ar sail gwybodaeth archeolegol, neu hanesyddol. Ni ddylid dehongli lleoliad mewn ffordd rhy gul, ac at ddibenion y broses hon, caiff effeithiau ar leoliadau eu categoreiddio yn effeithiau 'anuniongyrchol'.

Dylai trydedd ran adroddiad ASIDOHL, felly, ddisgrifio a meintioli effeithiau anuniongyrchol y datblygiad ar bob Ardal o Nodweddion Hanesyddol yr effeithir arnynt mewn modd mor wrthrychol â phosibl.

Gellir categoreiddio effeithiau anuniongyrchol fel rhai sydd yn bennaf yn effeithiau ffisegol neu weledol o ran natur.

(a) Effeithiau anuniongyrchol, ffisegol

Gall y rhain ddigwydd i elfennau mewn Ardal o Nodweddion Hanesyddol o ganlyniad i un o'r ffactorau canlynol neu gyfuniad ohonynt:

(i) Mwy o risg o fod yn agored i'r tywydd, erydiad, aflonyddiad, dirywiad, adfeiliad neu unrhyw newid ffisegol niweidiol arall i elfennau, yn ystod neu o ganlyniad i ddatblygiad.

(ii) Mewn perthynas ag (i), y tebygolrwydd y bydd angen mwy o adnoddau rheoli i gynnal elfennau, er enghraifft, yn sgîl newid mewn cynefinoedd, lefelau dŵr, mwy o erydiad, darparu mynediad newydd ac ati, yn ystod neu o ganlyniad i ddatblygiad.

(iii) Torri, darnio, datgymalu neu addasu'r cysylltiadau swyddogaethol rhwng elfennau cysylltiedig, er enghraifft, mae cyfundrefn caeau yn cael ei 'thorri' oddi wrth ei fferm berthynol gan ddatblygiad sydd yn y canol rhyngddynt.

(iv) Rhwystro neu ddod ag arferion defnydd tir hanesyddol i ben, er enghraifft, daw'n anos neu'n amhosibl i reoli ardal mewn modd traddodiadol o ganlyniad i ddatblygiad.

(v) Rhwystro mynediad sy'n arwain at lai o gyfleoedd i hybu addysg, dealltwriaeth neu i fwynhau amwynder yr elfennau, yn ystod neu o ganlyniad i ddatblygiad.

Dylai pob categori o effaith anuniongyrchol, ffisegol a nodwyd gael ei ddisgrifio a dylid gwneud asesiad o'i ddifrifoldeb yn seiliedig ar farn broffesiynol, gan raddio maint eu heffaith fel a ganlyn: 'Difrifol lawn'; 'Difrifol'; 'Sylweddol'; 'Cymedrol'; 'Ychydig'; neu 'Ychydig lawn'. Er mwyn pennu maint cyffredinol yr effeithiau anuniongyrchol, ffisegol ar Ardal o Nodweddion Hanesyddol, dylid pwyso a mesur meintiau effeithiau gyda sensitifrwydd elfen (h.y. pwysigrwydd neu statws cynhenid elfen), gan ddefnyddio'r un graddau a sgoriau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam 2 (h.y. y tair ystod gyntaf yn Tabl 3 ar dudalen 18).

Gellid crynhoi'r canlyniadau ar gyfer pob Ardal o Nodweddion Hanesyddol mewn tabl, er enghraifft:

TABL 6

CAM 3 ASIDOHL: ASESIAD O EFFEITHIAU ANUNIONGYRCHOL, FFISEGOL AR ARDAL O NODWEDDION HANESYDDOL Y

EFFEITHIAU	CATEGORI A SGÔR	MAINT YR EFFAITH A SGÔR
Mwy o risg o erydiad i elfen J	B — 3	Cymedrol — 3
Angen mwy o adnoddau rheoli ar gyfer elfen K	C — 2	Ychydig — 2
Cysylltiad swyddogaethol rhwng J a K wedi'i ddileu	A (SAM) — 4	Difrifol — 5
Defnydd traddodiadol o ardal L wedi dod i ben	A — 4	Difrifol lawn — 6
Gwerth amwynder elfen M wedi gostwng	C — 2	Cymedrol — 3

Caiff y sgoriau ar gyfer pob elfen (h.y. Statws + Maint) eu hadio at ei gilydd i gynhyrchu cyfanswm cyfunol. Yna, rhennir y ffigur hwn gan nifer yr elfennau a nodwyd, er mwyn cael ffigur ar gyfartaledd. Yn yr enghraifft a ddangosir uchod, byddai hyn yn:

(3+3) + (2+2) + (4+5) + (4+6) + (2+3)
wedi ei rannu â 5 = 6.8

Bydd angen y sgôr cyfartalog hwn ar ddiwedd Cam 3 i gyfrifo maint cyffredinol yr effeithiau anuniongyrchol ar yr Ardal o Nodweddion Hanesyddol.

(b) Effeithiau anuniongyrchol (nad ydynt yn rhai ffisegol) gweledol

Gall y rhain ddigwydd i elfennau, o ganlyniad i un o'r ffactorau canlynol, neu gyfuniad ohonynt:

(i) Yr effaith weledol ar elfennau lle y gellir gweld datblygiad (wedi'i ystyried hyd at ei uchder llawn). Gall yr effeithiau fod ar 'olygfeydd tuag at' neu 'olygfeydd oddi wrth', a dylid eu hasesu gan gyfeirio'n benodol at safbwyntiau hanesyddol allweddol a lleoliadau hanfodol. Dylid ystyned y rhain mewn perthynas â cymeriad a gweithrediad gwreiddiol y safle yn ogystal â'r mannau manteisiol a'r profiad gweledol y gallai ymwelydd ei gael heddiw.

Gall pennu'r agweddau hyn mewn perthynas â henebion yn y maes fod yn anodd, yn enwedig pan fydd y safbwyntiau hanesyddol allweddol a lleoliadau hanfodol a gydnabuwyd heddiw o bosibl yn wahanol i'r rhai a oedd yn bwysig i adeiladwyr neu drigolion gwreiddiol y safle. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl gwneud rhagdybiaethau rhesymol ar sail yr hyn a wyddys yn archolegol, neu'n hanesyddol, am y ffordd yr oedd mathau penodol o henebion yn gweithio neu'n cael eu hystyried yn wreiddiol. Dylai safbwyntiau allweddol hefyd gynnwys y rhai a fabwysiadwyd ar ôl hynny, er enghraifft, safbwyntiau hanesyddol, artistig safle, neu'r rhai a grëwyd yn fwriadol fel nodweddion mewn parciau a gerddi hanesyddol.

(ii) Yr effaith ar y cysylltiadau gweledol rhwng elfennau cysylltiedig yn sgîl achludiad, amhariad, ac ati, er enghraifft, datblygiad yn y canol yn rhwystro neu'n amharu ar yr hyn a allasai fod yn llinell weledol hanfodol rhwng safleoedd amddiffynnol sy'n gysylltiedig yn hanesyddol.

(iii) I'r gwrthwyneb, creu cysylltiadau gweledol amhriodol rhwng elfennau nas bwriadwyd i fod yn rhyng-weledol yn wreiddiol, drwy gael gwared ar strwythurau, rhwystrau, cysgodfannau, elfennau sgrinio neu dir sydd yn y canol.

(iv) Effaith weledol y datblygiad ei hun gan ystyried ei:

- ffurf — graddfa, nifer, dwysedd, màs, dosbarthiad ac ati ei nodweddion cyfansoddol;
- ymddangosiad — maint, siâp, lliw, deunydd ac ati ei nodweddion cyfansoddol, mewn perthynas â nodweddion hanesyddol presennol yr ardal.

Nod yr adran hon yw asesu i ba raddau y mae'r datblygiad yn amhariad gweledol neu'n llechfeddiant, ac i ba raddau y mae hynny'n effeithio ar gymeriad hanesyddol yr ardal.

NODYN: Mae'r Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu'r Amgylchedd wedi cyhoeddi ar y cyd *Guidelines for Landscape and Visual Assessment* (E. & F. N. Spon Press, Llundain: 2002, ail rifyn). Gallai hwn fod yn ddefnyddiol i'w ymgynghori, fodd bynnag, mae pecynnau meddalwedd bellach ar gael sy'n gallu gwneud defnydd o ddata digidol AO i greu dadansoddiad 360 gradd 'View-shed', cynrychioliadau 3-D rhithwir ac ati (e.e. Vertical Mapper for MapInfo; ERDAS IMAGINE ac ati). Mewn achosion cymhleth, neu pan fo'r datblygiad ar raddfa fawr iawn, gallai fod yn angenrheidiol defnyddio gwasanaethau pensaer tirwedd proffesiynol i gynnal asesiad llawn o effeithiau gweledol.

Dylid disgrifio pob math o effaith anuniongyrchol, gweledol gan ddefnyddio mapiau, ffigurau, diagramau, drychiadau a ffotograffau (gallai montages o ffotograffau fod yn arbennig o ddefnyddiol) fel y bo angen. Yn gyffredinol dylid cyfyngu asesiad i'r elfennau allweddol o fewn yr ardal(oedd) yr effeithir arni (arnynt), h.y. safleoedd Categori A a B (fel y'u diffiniwyd yng Ngham 2 uchod), gydag asesiad o ddifrifoldeb yr effaith yn seiliedig ar farn broffesiynol, a'i graddio fel a ganlyn: 'Difrifol lawn'; 'Difrifol'; 'Sylweddol'; 'Cymedrol'; 'Ychydig', neu 'Ychydig lawn'.

Er mwyn pennu maint cyffredinol yr effeithiau anuniongyrchol, ffisegol ar Ardal o Nodweddion Hanesyddol, dylid pwyso a mesur meintiau effeithiau gyda sensitifrwydd elfen (h.y. pwysigrwydd neu statws cynhenid elfen), gan ddefnyddio'r un graddau a sgoriau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam 2 (h.y. y tair ystod gyntaf yn Tabl ar dudalen 18).

Gellid crynhoi'r canlyniadau ar gyfer pob Ardal o Nodweddion Hanesyddol mewn tabl, er enghraifft:

TABL 7

CAM 3 ASIDOHL: ASESIAD O EFFEITHIAU ANUNIONGYRCHOL, GWELEDOL AR ARDAL O NODWEDDION HANESYDDOL Y

EFFEITHIAU	CATEGORI A SGÔR	MAINT A SGÔR
Golygfeydd at elfen N wedi'u rhwystro'n rhannol	A — 4	Ychydig — 2
Golygfeydd o elfen P yr amharwyd arnynt	B — 3	Difrifol — 5
Newid bach i leoliadau sylfaenol elfen R	A — 4	Ychydig — 2
Cysylltiad gweledol rhwng elfennau T a S wedi'u cau	B — 3	Difrifol lawn — 6
Ffurf y datblygiad	—	Difrifol — 5
Ymddangosiad y datblygiad	—	Cymedrol — 3

Caiff y sgoriau ar gyfer pob elfen (h.y. Statws + Maint) eu hadio at ei gilydd i gynhyrchu cyfanswm cyfunol. Yna, rhennir y ffigur hwn gan nifer yr elfennau a nodwyd, er mwyn cael ffigur ar gyfartaledd. Yn yr enghraifft a ddangosir uchod, byddai hyn yn:

(4+2) + (3+5) + (4+2) + (3+6) + 5 + 3
wedi ei rannu â 6 = 6.17

Yna, caiff y sgôr cyfartalog hwn ei adio i'r sgôr ar gyfer effeithiau anuniongyrchol, ffisegol a ddaeth i 6.8 yn y cyfrifiad ar dudalen 21:

6.17 + 6.8 = 12.97

Mae'r ffigur hwn ar raddfa o 1–32, a ffurfiwyd o'r sgôr uchaf posibl ar gyfer effeithiau anuniongyrchol, ffisegol, sef 10, a'r sgôr uchaf posibl ar gyfer effeithiau anuniongyrchol, gweledol, sef 22. Yn anffodus, ni ellir rhannu'r raddfa hon yn gyfleus yn 6 ystod o rifau cyfan fel y gellir gyda'r raddfa 24 pwynt a ddefnyddir yng Ngham 2 (Tabl 5 ar dudalen 19). Er mwyn goresgyn yr anhawster hwn, caiff y sgôr ar gyfartaledd ei luosi gan 24 a'i rannu gan 32, er mwyn ei newid i'r raddfa 24 pwynt.

Mae'r cyfrifiad fel a ganlyn:

12.97 x 24, wedi ei rannu â 32 =
9.72, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf = 10

Mae'r sgôr hwn yn darparu mesur o faint cyffredinol effeithiau anuniongyrchol (ffisegol a gweledol) ar yr Ardal o Nodweddion Hanesyddol, a gaiff ei raddio yn ôl yr un raddfa a ddefnyddir yng Ngham 2, sef:

TABL 8

CAM 3 ASIDOHL:
MAINT CYFFREDINOL YR EFFEITHIAU ANUNIONGYRCHOL

SGÔR	GRADD
21–24	Difrifol lawn
17–20	Difrifol
13–16	Sylweddol
9–12	Cymedrol
5–8	Ychydig
1–4	Ychydig lawn

Yn yr enghraifft a ddangosir, felly, mae sgôr o 10 yn gyfwerth â maint cyffredinol 'Cymedrol' o effaith anuniongyrchol, ffisegol ar Ardal o Nodweddion Hanesyddol Y.

Nid dyma'r unig fathau o effeithiau anuniongyrchol a ddisgrifir uchod o bell ffordd, a gallai fod nifer o effeithiau penodol eraill ar gyfer mathau arbennig o ddatblygiad y dylid eu hystyried a'u hasesu hefyd. Dylai pob effaith a nodwyd gael ei disgrifio a'i meintioli mewn modd mor wrthrychol â phosibl gyda disgrifiadau ysgrifenedig wedi'u hategu gan ddiagramau neu ffotograffau, yn arbennig ar gyfer effeithiau gweledol. Lle y bo meintioliad manwl gywir yn amhosibl, dylid rhoi barn broffesiynol.

Oherwydd bod yna botensial i fethu adnabod yr ystod lawn o effeithiau anuniongyrchol (nad ydynt yn ffisegol) gweledol, awgrymir yn bendant eu bod yn cael eu hadnabod a'u cytuno ymlaen llaw gydog adran guradurol yr Ymddimedolaeth Archeolegol Cymru berthnasol.

CAM 4 Gwerthuso pwysigrwydd cymharol

Dylai pedwerydd cam y broses ac adroddiad ASIDOHL werthuso pwysigrwydd cymharol yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol (neu ran (rannau) ohoni (ohonynt)) yr effeithir arni (arnynt) yn uniongyrchol a/neu anuniongyrchol gan y datblygiad mewn perthynas â'r:

(a) Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol cyfan;

(b) ardal gyfan o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr;

ac yna,

(c) gwerthusiad o bwysigrwydd cymharol yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol o dan sylw yn y cyd-destun cenedlaethol;

Yna, dylid cwblhau Cam 4 gyda penderfyniad o werth ar gyfartaledd, neu werth cyffredinol, yr holl Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol (neu ran(nau) ohonynt) yr effeithiwyd arnynt.

Bydd pa gamau gwerthuso y mae'n rhaid eu cyflawni a faint o fewnbwn sydd ei angen yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad mewn perthynas â natur a graddfa'r Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol a'r ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr. Er enghraifft, os bydd datblygiad yn effeithio'n uniongyrchol ar Ardal o Nodweddion Hanesyddol gyfan, yna dim ond camau gwerthuso (b) a (c) y mae angen eu cwblhau. Bydd cymhlethdod yr Ardal (oedd) o Nodweddion Hanesyddol o ran yr amrywiaeth o nodweddion a nifer yr elfennau hefyd yn dylanwadu ar faint o fewnbwn sydd ei angen.

Mewn achosion lle mae angen cwblhau camau (a) a (b), mae angen gwerthuso pwysigrwydd cymharol oherwydd mae'n bosibl fod pwysigrwydd cymharol elfen o fewn yr Ardal o Nodweddion Hanesyddol yn wahanol i'w bwysigrwydd cymharol o fewn yr ardal gyffredinol o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr. Er enghraifft, gallai elfen arbennig fod yn doreithiog ac yn eithaf cynrychioliadol o'r Ardal o Nodweddion Hanesyddol gyfan, ond gallai fod yn gymharol brin mewn perthynas â'r ardal gyfan o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr. Yn amlwg, os bydd Ardal o Nodweddion Hanesyddol gyfan yn cael ei heffeithio gan achos o golli ei holl elfennau, yna ni fyddai cam (a) yn berthnasol.

Mae'n debygol y gallai nifer o ffactorau effeithio ar sgoriau gwerthuso (gweler yr 'Arweiniad ar Werthuso' isod). Gallai maint a nifer gymharol yr Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol o fewn yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, a nifer yr Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol yr effeithir arnynt mewn perthynas â chyfanswm nifer yr Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol o fewn yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, effeithio rhywfaint ar y gwerthoedd a bennwyd.

Pan fydd yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr yn fawr ac yn amrywiol iawn, gallai fod yn anodd gwneud asesiad cywir o werth heb ymgymryd â gwaith ychwanegol a allai fod y tu hwnt i gwmpas ASIDOHL. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y byddai'r broses werthuso yn symlach ac yn haws drwy 'rannu' ardaloedd o dirwedd hanesyddol arbennig o fawr ar y Gofrestr yn nifer o ardaloedd llai yn cynnwys grwpiau o Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol. Gellid nodi'r ardaloedd llai hyn ar sail meini prawf dethol y Gofrestr, unedau topograffig neu themâu defnydd penodol o dir ac ati. Pa ddull bynnag a ddewisir, dylid egluro a chyfiawnhau hyn yn yr adroddiad ASIDOHL.

O ran cam gwerthuso (c), dylid ystyried bod 'cyd-destun cenedlaethol' yn cyfeirio at yr ardaloedd o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, nid Cymru gyfan. Er bod yr holl dirweddau hanesyddol ar y Gofrestr yn bwysig yn genedlaethol, am eu bod o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu arbennig, gall ambell Ardal o Nodweddion Hanesyddol fod hyd yn oed yn fwy pwysig, oherwydd amrywiaeth neu ansawdd yr elfennau oddi mewn iddynt, presenoldeb elfennau dynodedig oddi mewn iddynt, eu perthynas ag Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol eraill, eu statws fel rhan allweddol o'r ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, neu oherwydd cyfuniad o'r ffactorau hyn. Yn gyffredinol, bydd yr Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol hyn yn ddigyffelyb ac yn hawdd i'w nodi, er enghraifft, efallai y byddant o fewn Safle Treftadaeth y Byd neu efallai y byddant yn cynnwys Safleoedd Gwarchodaeth mawr ac enwog, Adeilad Rhestredig neu Heneb Gofrestredig a'i lleoliad, neu barc neu ardd hanesyddol ac ati.

Ni ddylid ystyried bod cam gwerthuso (c) yn israddio rhai ardaloedd: yr unig beth a wna yw cydnabod y gall rhai ardaloedd, nodweddion neu elfennau o fewn tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol fod o fwy o werth nag eraill. Felly, dylai fod yn bosibl pennu gwerth Ardal o Nodweddion Hanesyddol fel rhywle rhwng yr hyn y gellid ei ystyried yn werth 'isaf' yr ardal gyfan o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr (h.y. gwerth sy'n gyfwerth â'u statws pwysigrwydd cenedlaethol) a gwerth uwch yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol mwyaf arwyddocaol neu ddigyffelyb o fewn yr un ardal o dirwedd hanesyddol.

Arweiniad ar Werthuso

Mae'r adran hon yn rhoi rhestr o feini prawf y gellid eu cymhwyso yng nghamau gwerthuso (a) — (c), er yn dibynnu ar amgylchiadau unigol ni ellir cymhwyso'r holl feini prawf i bopeth. (Cylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig, Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg, t. 15, Atodiad 3, 'Meini Prawf yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Cofrestru Henebion'). Fodd bynnag, oherwydd bod rhai meini prawf SAM yn fwy perthnasol i safleoedd nag i dirweddau, ni fydd yr holl feini prawf SAM yn berthnasol i'r holl gamau gwerthuso. Am yr un rheswm, ni fydd yr holl feini prawf SAM yn berthnasol i'r holl nodweddion hanesyddol, na'r Ardaloedd o Nodweddion

Hanesyddol yr effeithir arnynt. Gan nad oes unrhyw reolau pendant, bydd yn fater o farn broffesiynol o ran pa feini prawf i'w dethol a'u cymhwyso. Gellid ceisio cyngor pellach gan yr Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru.

O ran gwerthuso'r meini prawf unigol, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn rhaid i'r gwahanol raddau o werthoedd fod yn ansoddol, oherwydd mai ychydig iawn o setiau o ddata cenedlaethol sy'n bodoli, os o gwbl, i alluogi i'r graddau meintiol gael eu penderfynu. Bydd hyn yn arbennig o wir yn achos cam gwerthuso (c). Gallai fod rhai achosion hefyd lle y bydd angen addasu'r ystodau neu'r graddau o werthoedd a argymhellir isod i adlewyrchu amodau lleol fel nifer uchel yr elfennau sy'n bresennol ac ati. Dylid defnyddio'r mesurau rhifiadol i ryw raddau, ond yn y rhan fwyaf o achosion bydd yn rhaid i'r ystodau neu'r graddau o werthoedd a ddewisir fod yn seiliedig ar farn broffesiynol.

Bydd angen gwneud mwy o waith er mwyn diffinio'r cam hwn o'r broses ASIDOHL drwy ddatblygu'r meini prawf gwerthuso a drwy wella'r ffyrdd y cânt eu cymhwyso. Yn y cyfamser, mae'r meini prawf gwerthuso yn seiliedig ar SAM a nodir isod wedi deillio o feini prawf a gymhwyswyd mewn asesiad tirwedd hanesyddol diweddar o ran o dirwedd Gwastadeddau Gwent o ddiddordeb hanesyddol eithriadol (Y Swyddfa Gymreig, Ffordd Liniaru'r M4 o Fagwyr i Gas-bach – Asesiad Cam 2, Adroddiad Drafft i Ymgynghori arno gan Ove Arup and Partners, Ebrill 1998 / Diwygiwyd Hydref 1998, Atodiad 2 – *The Historic Landscape* gan S. Rippon), a gwaith gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

D.S. Gan ddibynnu ar ba gam gwerthuso sy'n cael ei gymryd, mae 'elfennau' yn cynnwys 'nodweddion', ac mae 'tirwedd' yn cynnwys 'Ardal o Nodweddion Hanesyddol' yn y rhestr ganlynol.

Meini prawf ar gyfer penderfynu ar bwysigrwydd neu werth cymharol yng Ngham 4, camau (a), (b) a (c)

Prinder o ran cyfnod neu ddyddiad, ac fel rhan o'r tirwedd. Dylid asesu hyn mewn perthynas â'r hyn sy'n goroesi heddiw, oherwydd gallai elfennau o dirwedd a oedd yn gyffredin ar un adeg fod yn brin bellach.

Uchel Iawn	unig oroeswr o'i fath yn y tirwedd
Uchel	dim ond dwy neu dair elfen hanesyddol sydd ar y cyfan yn debyg yn y tirwedd;
Cymedrol	llai na 5 elfen sydd ar y cyfan yn y tirwedd;
Isel	mwy na 5 elfen sydd ar y cyfan yn debyg yn y tirwedd;
Dim	cyffredin ledled y tirwedd.

Dylid ystyried **Cynrychioldeb** hefyd, sef y gall enghraifft o dirwedd sy'n gyffredin ddal i fod o bwysigrwydd cenedlaethol os yw, yng ngoleuni meini prawf eraill, yn cynnwys amrywiaeth o elfennau sy'n arbennig o gynrychioliadol.

Uchel Iawn	yn cynnwys yr holl elfennau sy'n nodweddiadol o'r tirwedd;
Uchel	yn cynnwys y rhan fwyaf o'r elfennau sy'n nodweddiadol o'r tirwedd;
Cymedrol	yn cynnwys tua hanner o'r elfennau sy'n nodweddiadol o'r tirwedd;
Isel	yn cynnwys rhai o'r elfennau sy'n nodweddiadol o'r tirwedd;
Dim	yr unig enghraifft o'r elfen ac, felly, nid yw'n gynrychioliadol.

Dogfennaeth Bydd goroesiad dogfennaeth sy'n gwella ein dealltwriaeth o dirwedd yn codi ei bwysigrwydd, er ei fod yn anodd mesur hyn yn sgîl yr amrywiaeth eang iawn o ran natur y deunydd dogfennol. Felly, rhoddir barn broffesiynol yn seiliedig ar swm neu bwysigrwydd gwirioneddol y deunydd a'i werth academaidd.

Uchel Iawn	cofnod dogfennol llawn, neu ffynonellau eithriadol bwysig ar gael;
Uchel	swm sylweddol o ddeunydd perthnasol, neu ffynonellau pwysig iawn sydd ar gael;
Cymedrol	peth deunydd perthnasol, neu ffynonellau cymedrol bwysig sydd ar gael;
Isel	ychydig o ddeunydd perthnasol, neu ffynonellau nad ydynt o bwys mawr sydd ar gael;
Dim	dim deunydd perthnasol ar gael.

Mae **Gwerth Grŵp** yn ymwneud ag amrywiaeth (neu debygrwydd) elfennau gan gynnwys eu cydlyniad strwythurol neu swyddogaethol. I ryw raddau, bydd gwerth grŵp elfennau unigol wedi'i ystyried yng Ngham 2, pan fydd cysylltiadau rhwng elfennau agos iawn fel, er enghraifft, rhwng y nodweddion ar wahân sy'n ffurfio safle chwarela neu gloddio, yn gallu gwella gwerth cynhenid, neu dirwedd, elfen neu nodwedd. Yng Ngham 4, mae perthynas y gwerth grŵp fel arfer yn ehangach ac yn fwy tebygol o fod rhwng grwpiau cyfan o elfennau cysylltiedig fel, er enghraifft, mewn cyfadeilad chwarela neu gloddio sy'n cynnwys aneddiadau cysylltiedig, systemau cludo yn ogystal â safleoedd prosesu ac ati. Mae'n amlwg y bydd yna enghreifftiau mewn Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol lle ceir elfennau neu grwpiau sy'n gysylltiedig ag eraill nad effeithir yn uniongyrchol arnynt gan ddatblygiad neu a leolir o fewn Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol cyfagos. Mae'n debyg hefyd bod 'Gwerth Grŵp' yn fwy perthnasol i ardaloedd a nodwyd o dan feini prawf dethol cyntaf ac ail feini prawf dethol y Gofrestr, sef 'tirweddau 'wedi'u datblygu'n sylweddol neu wedi'u hailfodelu'n helaeth' neu dirweddau 'Cyfnod'.

Uchel Iawn	yn cynnwys chwech neu fwy o elfennau neu grwpiau cysylltiedig;
Uchel	yn cynnwys pedair neu bump o elfennau neu grwpiau cysylltiedig;
Cymedrol	yn cynnwys tair neu bedair o elfennau neu grwpiau cysylltiedig;
Isel	yn cynnwys dwy neu dair o elfennau neu grwpiau cysylltiedig;
Dim	h.y. un neu nifer o elfennau neu grwpiau nad ydynt yn gysylltiedig.

Mae **Goroesiad** yn ymwneud yn bennaf ag i ba raddau y mae elfennau yn y tirwedd wedi goroesi. Mewn enghreifftiau lle y bo'r graddau neu niferoedd gwreiddiol yn hysbys (er enghraifft, ffiniau caeau traddodiadol y ceir tystiolaeth fanwl wedi'i mapio amdanynt), gallai fod yn bosibl mesur hyn yn feintiol.

Da Iawn	mwy na 90% o elfennau yn goroesi;
Da	rhwng 71% a 90% o elfennau yn goroesi;
Cymedrol	Rhwng 51% a 70% o elfennau yn goroesi;
Gweddol	Rhwng 26% a 50% o elfennau yn goroesi;
Gwael	O dan 25% o elfennau yn goroesi.

Mae **Cyflwr** yn ymwneud â chyflwr yr elfennau yn y tirwedd.

Da Iawn	elfennau yn goroesi mewn cyflwr da iawn ar gyfer eu dosbarth;
Da	elfennau yn goroesi mewn cyflwr da neu well na'r cyflwr arferol ar gyfer eu dosbarth;
Cymedrol	elfennau yn goroesi mewn cyflwr cymedrol neu arferol ar gyfer eu dosbarth;
Gweddol	elfennau yn goroesi mewn cyflwr gweddol neu'n is na'r cyffredin ar gyfer eu dosbarth;
Gwael	elfennau yn goroesi mewn cyflwr gwael ar gyfer eu dosbarth.

Mae **Cydlyniad** yn ymwneud â pha mor dda mae ystyr hanesyddol ac arwyddocâd y tirwedd wedi'u diffinio gan themâu hanesyddol, sef y prosesau a'r patrymau hanesyddol sydd wedi creu'r elfennau unigol oddi mewn iddo. Mae'n eithaf posibl fod prosesau a phatrymau hanesyddol wedi'u cynnal, neu'n parhau, fel bod y tirwedd yn dal i feddu ar lawer o'i swyddogaeth wreiddiol, gan felly wella'i gydlyniad. Gall themâu sy'n ddirnadwy neu'n amlwg iawn wella cydlyniad a phwysigrwydd tirwedd.

Uchel Iawn	thema (themâu) hanesyddol amlwg yn bresennol — tirwedd yn cadw ei swyddogaeth wreiddiol;
Uchel	thema (themâu) hanesyddol amlwg yn bresennol — tirwedd diffiniedig iawn, ond ei swyddogaeth wreiddiol wedi dod i ben;
Cymedrol	thema (themâu) hanesyddol yn bresennol, — tirwedd gymedrol ddiffiniedig;
Isel	thema (themâu) hanesyddol yn bresennol, ond yn wan — tirwedd heb lawer o ddiffiniad;
Gwael	thema (themâu) hanesyddol wedi'u cuddio gan newidiadau diweddarach.

Cywirdeb Gellid ychwanegu at bwysigrwydd tirwedd drwy ei gywirdeb, sef ei fod yn gysylltiedig â goroesiad ei gymeriad neu ffurf wreiddiol. Bydd gweledded ac eglurdeb yr elfennau cydran yn codi ei werth fel amwynder. Yn gyffredinol mae mwy o weledded ac eglurdeb yn ychwanegu at y posibilrwydd y caiff y tirwedd hanesyddol ei ddeall yn hawdd gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr.

Uchel Iawn	elfennau'n cadw llawer o'u nodweddion gwreiddiol, yn hawdd eu gweld a'u deall;
Uchel	elfennau'n cadw llawer o'u nodweddion gwreiddiol, yn hawdd eu gweld a'u deall;
Cymedrol	elfennau'n cadw rhai o'u nodweddion gwreiddiol, yn weledol ond nad ydynt yn hawdd eu deall;
Isel	elfennau nad ydynt yn hawdd eu gweld ac sy'n anodd eu deall;
Gwael	elfennau na ellir eu gweld braidd dim ac sy'n anodd iawn i'w deall.

Mae **Potensial** yn ymwneud â'r potensial o fewn y tirwedd o ran astudio a dadansoddi'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol.

Uchel Iawn	llawer iawn o gyfleoedd i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol;
Uchel	llawer o gyfleoedd i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol;
Cymedrol	rhywfaint o gyfleoedd i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol;
Isel	prin yw'r cyfleoedd i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol;
Gwael	braidd dim cyfle i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol.

Mae **Amwynder** yn ymwneud â gwerth potensial datblygu elfennau fel amwynder addysg a hamdden cyhoeddus.

Uchel Iawn	llawer iawn o gyfleoedd i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol;
Uchel	llawer o gyfleoedd i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol;
Cymedrol	rhywfaint o gyfleoedd i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol;
Isel	prin yw'r cyfleoedd i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol;
Gwael	braidd dim cyfle i gynnal astudiaeth a dadansoddiad o'r tirwedd hanesyddol yn y dyfodol.

Cysylltiadau Gallai fod gan dirwedd neu ardal neu elfen oddi mewn iddi gysylltiadau hanesyddol pwysig, er enghraifft â sefydliadau, ffigyrau diwylliannol, mudiadau neu ddigwyddiadau penodol ac ati. Yn aml, fodd bynnag, ni cheir unrhyw weddillion ffisegol, neu gall fod yn anodd sefydlu cysylltiad â lle, nodwedd neu elfen arbennig, pan fo ffynonellau dogfennol neu lafar yn unig wedi goroesi. Yn sgîl natur gymhleth cysylltiadau, felly, mae'n amhosibl eu meintioli, felly cynhelir asesiad yn seiliedig ar farn broffesiynol.

Uchel Iawn	cysylltiad(au) arwyddocaol iawn, dilys y gwyddys amdano (amdanynt) yn genedlaethol;
Uchel	cysylltiad(au) arwyddocaol, dilys y gwyddys amdano (amdanynt) yn rhanbarthol;
Cymedrol	cysylltiad(au) dilys, ond llai arwyddocaol, o bosibl y gwyddys amdano (amdanynt) yn lleol;
Isel	cysylltiad(au) annilys neu na wyddys llawer amdano (amdanynt);
Dim	ni wyddys am gysylltiad(au).

Dylai gwerthuso camau (a) a (b) gynnwys datganiadau ysgrifenedig a dulliau o gyfiawnhau'r gwerthoedd a briodolir i bob maen prawf, a'i ddilyn yna gan ddatganiad casgliadol ar gyfer naill ai cam (a) neu (b). Dylai'r datganiad adlewyrchu lefel gyffredinol y gwerthoedd ar draws yr holl feini prawf, gan nodi unrhyw gysylltiadau sy'n 'Uchel' neu'n 'Isel'.

Dylai'r gwerthusiad o gam (c) gynnwys datganiadau ysgrifenedig a dulliau o gyfiawnhau'r gwerthoedd a briodolwyd at bob maen prawf, a'i ddilyn gan ddatganiad casgliadol. Dylai'r datganiad adlewyrchu lefel gyffredinol y gwerthoedd ar draws yr holl feini prawf, gan nodi unrhyw gysylltiadau sy'n 'Uchel' neu'n 'Isel'.

Gellid crynhoi canlyniadau'r broses werthuso ar gyfer camau (a) a (b) mewn tabl, er enghraifft:

TABL 9

CAM 4 ASIDOHL: GWERTHUSIAD O BWYSIGRWYDD CYMHAROL RHAN O ARDAL O NODWEDDION HANESYDDOL Z YR EFFEITHIR ARNI YN UNIONGYRCHOL AC / NEU YN ANUNIONGYRCHOL GAN DDATBLYGIAD

GWERTH:	UCHEL IAWN/ DA IAWN	UCHEL/ DA	CYMEDROL/ CANOLIG	ISEL	GWAEL/ DIM	UCHEL IAWN/ DA IAWN	UCHEL/ DA	CYMEDROL/ CANOLIG	ISEL	GWAEL/ DIM
mewn perthynas â: GYFAN AR Y GOFRESTR	(a) YR AR ARDAL O NODWEDDION					(b) YR ARDAL O DIRWEDD HANESYDDOL GYFAN		HANESYDDOL		
MAEN PRAWF:										
PRINDER	√						√			
CYNRYCHIOLDEB		√						√		
DOGFENNAETH				√					√	
GWERTH GRŴP		√					√			
GOROESIAD		√						√		
CYFLWR	√					√				
CYDLYNIAD		√						√		
CYWIRDEB	√					√				
POTENSIAL			√					√		
AMWYNDER		√						√		
CYSYLLTIADAU				√					√	

Gellid crynhoi canlyniadau'r broses werthuso ar gyfer cam (c) mewn tabl, er enghraifft:

TABL 10

CAM 4 ASIDOHL: GWERTHUSIAD O BWYSIGRWYDD CYMHAROL YR ARDALOEDD O NODWEDDION HANESYDDOL YR EFFEITHIR ARNYNT YN UNIONGYRCHOL AC / NEU YN ANUNIONGYRCHOL YN Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

GWERTH:	UCHEL IAWN/ DA IAWN	UCHEL/ DA	CYMEDROL/ CANOLIG	ISEL	GWAEL/ DIM	UCHEL IAWN/ DA IAWN	UCHEL/ DA	CYMEDROL/ CANOLIG	ISEL	GWAEL/ DIM
mewn perthynas â:	ARDAL O NODWEDDION HANESYDDOL X					ARDAL O NODWEDDION HANESYDDOL Y				
MAEN PRAWF:										
PRINDER	√						√			
CYNRYCHIOLDEB				√				√		
DOGFENNAETH		√							√	
GWERTH GRŴP			√			√				
GOROESIAD		√					√			
CYFLWR		√					√			
CYDLYNIAD			√				√			
CYWIRDEB			√					√		
POTENSIAL	√					√				
AMWYNDER				√				√		
CYSYLLTIADAU				√						√

Dylid sgorio gwerthoedd meini prawf yng nghamau (a), (b) a (c) fel a ganlyn:

TABL 11

CAM 4 ASIDOHL: SGORIAU GWERTHUSO

GWERTH MAEN PRAWF	**SGÔR**
Uchel lawn / Da lawn	4
Uchel / Da	3
Cymedrol / Canolig	2
Isel	1
Gwael / Dim	0

Yn yr enghraifft (uchod), felly, y pwysigrwydd cymharol Ardal o Nodweddion Hanesyddol X yn y cyd-destun cenedlaethol fyddai:

(2 x Uchel lawn @ 4) + (3 x Uchel @ 3) + (3 x Canolig @ 2) + (3 x Isel @ 1) = 26 allan o uchafswm posibl o 44 (h.y. 11 x Uchel lawn @ 4),

ac ar gyfer Ardal o Nodweddion Hanesyddol Y:

(2 x Uchel lawn @ 4) + (4 x Uchel @ 3) + (4 x Canolig @ 2) + (1 x Isel @ 1) = 27 ar yr un raddfa ag Ardal X.

Rhan olaf Cam 4 yw pennu gwerth ar gyfartaledd, cyffredinol yr holl Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol (neu ran(nau) ohonynt) yr effeithir arnynt.

Gwneir hyn drwy gyfuno sgoriau camau (a), (b) a (c) (neu dim ond (b) a (c) os na chymhwysir (a)). Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaeth rhwng ystodau sgoriau a all ddeillio o gymhwyso nifer gwahanol o gamau a meini prawf, a chynnwys nifer gwahanol o Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol, mae'n rhaid newid y sgoriau i raddfa o 1 — 100, a fyddai fel a ganlyn yn achos Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol X ac Y:

Ardal o Nodweddion Hanesyddol X: (26 ÷ 44) x 100 = 59

Ardal o Nodweddion Hanesyddol Y = (27 ÷ 44) x 100 = 61.3

Felly, gwerth ar gyfartaledd, cyffredinol y ddwy ardal gyda'i gilydd, ar raddfa o 1 — 100 fyddai:

(59 + 61.3) ÷ 2 = 60.15, wedi'i dalgrynnu i'r ffigur cyfan agosaf, sef 60

Yna, byddai'r gwerth ar gyfartaledd, cyffredinol hwn, neu'r ffigur gwerthuso cyfunol ar gyfer Cam 4, yn cael ei raddio fel a ganlyn:

TABL 12

CAM 4 ASIDOHL: GRADDAU GWERTH CYFFREDINOL

80–100	Uchel Iawn
60–79	Uchel
40–59	Sylweddol
20–39	Cymedrol
5–19	Isel
1–4	Isel Iawn

CAM 5 Asesu arwyddocâd cyffredinol effaith

Pan fo effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y datblygiad wedi'u disgrifio a, cyhyd ag y bo modd, eu meintioli, yng Nghamau 2 a 3, a bod gwerthoedd cymharol, ar gyfartaledd, cyffredinol yr ardal(oedd) yr effeithir arni (arnynt) wedi'u sefydlu yng Ngham 4, gellir ymgymryd â'r pumed cam, sef cam olaf y broses ASIDOHL. Dylai'r cam terfynol hwn gyfuno canlyniadau Camau 2 i 4 i gynhyrchu asesiad o arwyddocâd cyffredinol effaith datblygiad a'r effaith y caiff newid yr Ardal(oedd) o Nodweddion Hanesyddol dan sylw ar yr holl ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr. Pennir hyn gan y broses o osod a sgorio gwerth yr ardal(oedd) o nodweddion yr effeithir arni (arnynt) mewn perthynas â'r effaith a achosir gan ddatblygiad a'r gostyngiad canlyniadol yng ngwerth yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr, gan ddefnyddio'r model canlynol:

TABL 13

CAM 5 ASIDOHL: CRYNODEB O ARWYDDOCD CYFFREDINOL EFFAITH AR DIRWEDD O DDIDDORDEB HANESYDDOL 'A'

GWERTH ARDAL(OEDD) O NODWEDDION (yn seiliedig ar ganlyniadau CAM 4)	EFFAITH A ACHOSIR GAN DDATBLYGIAD (yn seiliedig ar ganlyniadau CAMAU 2 a 3)	GOSTWNG GWERTH YR ARDAL O DIRWEDD HANESYDDOL AR Y GOFRESTR
Uchel Iawn Elfennau allweddol o bwysigrwydd cynhenid uchel iawn ac/neu gyflwr a/neu werth grŵp, ac/neu nas canfyddir yn rhywle arall yn yr ardaloedd o dirwedd hanesyddol hyn, neu rai eraill, ar y Gofrestr. SGÔR: 9 neu 10	**Uchel Iawn** Colli tir yn ddifrifol a darnio ac/neu amharu'n weledol ar y tir yn dilyn hynny, gan achosi i elfennau allweddol gael eu dileu neu eu newid fel na fydd disgrifiadau manwl yn berthnasol bellach, a/neu caiff gwerth amwynder ei golli'n llwyr. SGÔR: 9 neu 10	**Uchel Iawn** Mae effaith y datblygiad ar elfennau allweddol wedi peri i werth cyffredinol yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr ostwng i'r fath raddau fel na ellir cyfiawnhau ei chynnwys ar y Gofrestr bellach. SGÔR: 9 neu 10
Uchel Elfennau allweddol o bwysigrwydd cynhenid uchel ac/neu gyflwr a/neu werth grŵp, ac/neu sy'n anghyffredin yn rhywle arall yn yr ardaloedd o dirwedd hanesyddol hyn, neu rai eraill, ar y Gofrestr. SGÔR: 7 neu 8	**Uchel** Colli tir yn sylweddol a darnio ac/neu amharu'n weledol ar y tir yn dilyn hynny, gan achosi i elfennau allweddol gael eu dileu neu eu newid fel bod gwerth grŵp a/neu cydlyniad a/neu gywirdeb yn cael eu gostwng yn sylweddol a/neu werth amwynder yn cael ei ostwng yn sylweddol. SGÔR: 7 neu 8	**Uchel** Mae effaith y datblygiad ar elfennau allweddol wedi peri i werth cyffredinol yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr ostwng yn sylweddol. SGÔR: 7 neu 8
Canolig Elfennau allweddol o bwysigrwydd cynhenid amrywiol ac/neu gyflwr a/neu werth grŵp, ac/neu sy'n gyffredinol nodweddiadol o'r ardaloedd o dirwedd hanesyddol hyn, neu rai eraill, ar y Gofrestr. SGÔR: 4, 5 neu 6	**Canolig** Colli tir yn gymedrol a darnio ac/neu amharu'n weledol ar y tir yn dilyn hynny, gan achosi i rai elfennau allweddol gael eu dileu neu eu newid fel bod gwerth grŵp a/neu cydlyniad a/neu gywirdeb yn cael eu gostwng yn sylweddol a/neu werth amwynder yn cael ei ostwng yn sylweddol. SGÔR: 4, 5 neu 6	**Canolig** Mae effaith y datblygiad ar elfennau allweddol wedi peri i werth cyffredinol yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr ostwng rhywfaint. SGÔR: 4, 5 neu 6
Isel Elfennau allweddol o bwysigrwydd isel i gymedrol ac/neu gyflwr a/neu werth grŵp, ac/neu o bwysigrwydd isel yn gyffredinol yn yr ardaloedd o dirwedd hanesyddol hyn, neu rai eraill, ar y Gofrestr. SGÔR: 2 neu 3	**Isel** Colli ychydig o dir a darnio ac/neu amharu'n weledol ar y tir yn dilyn hynny, gan achosi i nifer gyfyngedig o elfennau allweddol gael eu dileu neu eu newid fel bod gwerth grŵp a/neu gydlyniad a/neu gywirdeb yn cael eu gostwng ychydig a/neu werth amwynder yn cael ei ostwng ychydig. SGÔR: 2 neu 3	**Isel** Mae effaith y datblygiad ar elfennau allweddol wedi peri i werth cyffredinol yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr ostwng ychydig. SGÔR: 2 neu 3
Isel Iawn Elfennau nad ydynt yn nodweddiadol o'r ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr ac/neu sydd wedi newid drwy ddatblygiad modern. SGÔR: 1	**Isel Iawn** Colli ychydig iawn o dir a darnio ac/neu amharu'n weledol ar y tir yn dilyn hynny, gan achosi mân newidiadau i elfennau a'u gwerthoedd. SGÔR: 1	**Isel Iawn** Mae effaith y datblygiad ar elfennau allweddol wedi peri i werth cyffredinol yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr aros yn ddigyfnewid yn y bôn. SGÔR: 0
CYFANSWM Y SGÔR:	ARWYDDOCÂD CYFFREDINOL EFFAITH:	

Mewn enghraifft wirioneddol, dylid enwi'r Ardaloedd o Nodweddion Hanesyddol, a'u nodweddion neu elfennau allweddol, gyda datganiadau byr i gyfiawnhau'r gwerthoedd a'r sgoriau a roddir, yn seiliedig ar y canlyniadau allweddol o Gamau 2 i 4. Fodd bynnag, ni ddylai'r tabl fod yn rhy hir nac yn rhy gymhleth; ei ddiben yw darparu crynodeb casgliadol hanfodol a chofnod o broses gyfan ASIDOHL, yn ogystal â nodi arwyddocâd cyffredinol effaith y datblygiad ar ardal o dirwedd ar y Gofrestr.

Er bod y broses sgorio wedi'i defnyddio'n helaeth yng Nghamau 2, 3 a 4, nid argymhellir fod y sgoriau o'r camau hyn yn cael eu cyfuno neu eu 'newid' yn uniongyrchol i bennu'r sgoriau terfynol yn y tabl hwn. Yn hytrach, dylai hyn fod yn fater o ddehongliad a barn broffesiynol, yn seiliedig ar bwyso a mesur yr holl sgoriau yn y Camau blaenorol, gan nodi cyfartaleddau yn ogystal ag unrhyw sgoriau 'Uchel' neu 'Isel'.

Heblaw am wallau, derbynnir yn gyffredinol y dylai pob parti sy'n defnyddio canlyniadau ASIDOHL, gan gynnwys mewn Ymchwiliad Cyhoeddus, allu cytuno ar ganlyniadau Camau 2 i 4, gydag unrhyw ryddid i ailddehongli canlyniadau sy'n gyfyngedig i Gam 5.

Caiff arwyddocâd cyffredinol effaith ei raddio fel a ganlyn:

TABL 14

CAM 5 ASIDOHL: ARWYDDOCÂD CYFFREDINOL EFFAITH

SGÔR	GRADDIO
26–30	Difrifol Iawn
21–25	Difrifol
16–20	Gweddol Ddifrifol
10–15	Cymedrol
4–9	Ychydig
1–3	Ychydig Iawn

Caiff y sgôr a'r radd eu rhoi yn y rhes olaf Tabl 13 ar dudalen 29.

Yn olaf, yn ystod y cam hwn, dylid ystyried unrhyw fuddiannau, manteision neu welliannau y mae datblygiad yn honni eu cynnig yn nhermau gwaith cadwraeth, gwella mynediad a chynyddu cyfleoedd i astudio, ymchwilio ac ati. Dylid disgrifio, pwyso a mesur y rhain mewn adran ar wahân ar ddiwedd Cam 5.

Datganiad Casgliadol ASIDOHL

Dylid cwblhau'r adroddiad ASIDOHL drwy gloi gyda datganiad sy'n tynnu'r holl brif bwyntiau at ei gilydd mewn disgrifiad sy'n pwyso ac yn mesur arwyddocâd cyffredinol effaith datblygiad mewn dull mor gywir ac mor wrthrychol â phosibl. Dylai'r datganiad hwn gynnwys bam broffesiynol ar y graddau y gallai'r datblygiad yn newid ein gallu i ddeall a chymeradwyo ystyr ac arwyddocad hanesyddol y tirwedd, ac o ganlyniad ei werth cyffredirol yn ôl y sgoriau yng ngolofn dde Tabl 13 ar dudalen 29. Yn ogystal dylai'r datganiad gynnwys unrhyw ffaith bwysig neu hollbwysig arall na chafodd ei chrybwyll neu ei chyfrif yn y broses ASIDOHL, neu nad oedd modd ei chrybwyll neu ei chyfrif, er enghraifft, caniatâd cynllunio sy'n bodoli ar gyfer datblygiad tebyg mewn Ardal o Nodweddion Hanesyddol gyfagos.

Bydd y Datganiad Casgliadol yn rhan allweddol o'r adroddiad ASIDOHL, y byddir yn cyfeirio fwyaf ato, yn arbennig mewn Ymchwiliad Cyhoeddus, pan allai fod yn rhan o'r Prawf o Dystiolaeth a gyflwynir i'r Ymchwiliad. Mae'n hanfodol, felly, bod y datganiad casgliadol yn cael ei ysgrifennu mewn arddull glir a chryno y gellir ei deall yn hawdd gan bobl nad ydynt yn arbenigo yn y maes a'r Arolygydd yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus fel ei gilydd. Mewn achosion cymhleth, neu pan ei fod yn sicrhau eglurdeb, dylid llunio geirfa i egluro mewn iaith syml ystyr y termau a'r geiriau a ddefnyddir yn yr adroddiad ASIDOHL i ddisgrifio tirweddau hanesyddol. Gall terminoleg tirwedd hanesyddol fod yn academaidd astrus i bobl nad ydynt yn arbenigo yn y maes, neu fod ag ystyr gwbl wahanol yng nghyd-destun cynllunio, sy'n gallu peri dryswch diangen. Bydd crynoder hefyd yn hanfodol, gyda datganiadau byr yn crynhoi canlyniadau cyffredinol yr asesiad.

ATODIAD

Rhestr o sefydliadau y gellir eu holi am wybodaeth a chyngor pellach am y Canllaw hwn a'r Gofrestr a'r ardaloedd y mae'n ei cynnwys:

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor
Gwynedd LL57 2LQ
Ffôn 01248 385500
www.ccw.gov.uk

Cadw
Adeilad y Goron, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn 02920 500200
www.cadw.wales.gov.uk

Archeoleg Cambria
Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo
Sir Gaerfyrddin SA19 6AF
Ffôn 01558 823131
www.acadat.com

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd — Powys
7a Stryd yr Eglwys, Y Trallwng
Powys SY21 7DL
Ffôn 01938 553670
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg — Gwent
Tŷ Heathfield, Heathfield
Abertawe SA1 6EL
Ffôn 01792 655208
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd Garth, Bangor
Gwynedd LL57 2RT
Ffôn 01248 352535
www.heneb.co.uk